



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2008 Rhif 3143 (Cy.278)**

**2008 No. 3143 (W.278)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES**

**DŴR, CYMRU**

**WATER, WALES**

**Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau  
(Cymru) 2008**

**The Nitrate Pollution Prevention  
(Wales) Regulations 2008**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli, i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, y darpariaethau (fel y'u nodir yn rheoliad 50) a oedd yn rheoli'r broses o ddodi gwrtiaith nitrogen mewn ardaloedd sy'n agored i niwed gan nitradau.

These Regulations revoke and replace, in so far as they apply in relation to Wales, the provisions (as set out in regulation 50) which controlled the application of nitrogen fertiliser in nitrate sensitive areas.

O ran Cymru, mae'r Rheoliadau hyn yn parhau i weithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 91/676/EEC ynghylch diogelu dyfroedd rhag llygredd gan nitradau o ffynonellau amaethyddol (OJ Rhif L375, 31.12.91, t.1).

In relation to Wales, these Regulations continue to implement Council Directive 91/676/EEC concerning the protection of waters against pollution by nitrates from agricultural sources (OJ No. L375, 31.12.91, p.1).

**Y prif newidiadau**

**Principal changes**

Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn.

The principal changes are as follows.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at yr ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n barthau perygl nitradau.

These Regulations extend the areas designated as nitrate vulnerable zones.

Mae'r lefel flynyddol a ganiateir ar gyfer doddi nitradau ar ffurf tail da byw ar laswelltir mewn parth perygl nitradau wedi'i lleihau o 250 kg/ha i 170 kg/ha (o'r blaen yr oedd y terfyn is yn gymwys i dir nad oedd yn laswelltir).

The permitted annual level of nitrate application of livestock manure to grassland in a nitrate vulnerable zone is reduced from 250 kg/ha to 170 kg/ha (previously the lower limit applied to land other than grassland).

Mae'r Rheoliadau hyn yn newid y cyfnod pan na chaniateir i dail organig gael ei daenu mewn parth perygl nitradau, ac yn cynyddu faint o le y mae'n ofynnol ei gael ar gyfer storio tail organig.

These Regulations change the period during which organic manure in a nitrate vulnerable zone must not be spread, and increase the amount of organic manure storage capacity required.

**Y Rheoliadau**

**The Regulations**

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn dynodi parthau perygl nitradau, ac yn sefydlu gweithdrefn ar gyfer apelio yn erbyn y dynodiad.

Part 2 of these Regulations designate nitrate vulnerable zones, and establish an appeals procedure against the designation.

Mae Rhan 3 yn gosod terfynau blynyddol ar faint o nitrogen o dail organig y caniateir ei ddodi neu ei daenu ar ddaliad mewn parth perygl nitradau.

Mae Rhan 4 yn sefydlu gofynion ynghylch faint o nitrogen sydd i'w daenu ar gnwd, ac yn ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd gynllunio ymlaen llaw faint o wrtaith nitrogen a gaiff ei daenu.

Mae Rhan 5 yn ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd ddarparu map risg o'r daliad (rheoliad 18), ac yn gosod amodau ar sut, ble a phryd y dylid taenu gwrrtaith nitrogen.

Mae Rhan 6 yn sefydlu cyfnodau gwaharddedig pryd y gwaherddir taenu gwrrtaith nitrogen.

Mae Rhan 7 yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut mae'n rhaid storio gwrrtaith nitrogen, ac yn ei gwneud yn ofynnol bod lle ar gael i storio'r tail a gynhyrchir ar y daliad yn ystod y cyfnod a bennir yn y Rhan honno.

Mae Rhan 8 yn pennu pa gofnodion y mae'n rhaid eu cadw.

Mae Rhan 9 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r Rheoliadau o fewn amserlenni gosodedig.

Mae'r Rheoliadau hyn i'w gorfodi gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae torri'r Rheoliadau hyn yn dramgwydd sy'n dwyn cosb—

- (a) ar gollfarn ddiannod, o ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol, neu
- (b) ar gollfarn ar dditiad, o ddirwy.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn ac mae copi ar gael oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Part 3 imposes annual limits on the amount of nitrogen from organic manure that may be applied or spread in a holding in a nitrate vulnerable zone.

Part 4 establishes requirements relating to the amount of nitrogen to be spread on a crop, and requires an occupier to plan in advance how much nitrogen fertiliser will be spread.

Part 5 requires an occupier to provide a risk map of the holding (regulation 18), and imposes conditions on how, where and when to spread nitrogen fertiliser.

Part 6 establishes closed periods during which it is prohibited to spread nitrogen fertiliser.

Part 7 makes provision for how nitrogen fertiliser must be stored, and requires storage capacity for manure produced on the holding during the period specified in that Part.

Part 8 specifies which records must be kept.

Part 9 requires the Welsh Ministers to review the Regulations within set time scales.

These Regulations are enforced by the Environment Agency.

Breach of these Regulations is an offence punishable—

- (a) on summary conviction, with a fine not exceeding the statutory maximum, or
- (b) on conviction on indictment, with a fine.

A full impact assessment has been prepared for these Regulations and a copy is available from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

**2008 Rhif 3143 (Cy.278)**

**2008 No. 3143 (W.278)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES**

**DŴR, CYMRU**

**WATER, WALES**

**Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau  
(Cymru) 2008**

**The Nitrate Pollution Prevention  
(Wales) Regulations 2008**

*Gwnaed* 6 Rhagfyr 2008

*Made* 6 December 2008

*Gosodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru* 9 Rhagfyr 2008

*Laid before the National  
Assembly for Wales* 9 December 2008

*Yn dod i rym* yn unol â rheoliad 3

*Coming into force* in accordance with  
regulation 3

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Rhagarweiniad

Introduction

1. Enwi
2. Cymhwyso
3. Dod i rym
4. Mesurau trosiannol ar gyfer daliadau nad oeddent gynt mewn parth perygl nitradau
5. Ystyr "dwr llygredig"
6. Dehongli

1. Citation
2. Application
3. Coming into force
4. Transitional measures for holdings not previously in a nitrate-vulnerable zone
5. Meaning of "polluted water"
6. Interpretation

RHAN 2

PART 2

Dynodi parthau perygl nitradau

Designation of nitrate vulnerable zones

7. Dynodi parthau perygl nitradau
8. Cais am ddatganiad
9. Achosion cyfreithiol gerbron y person penodedig
10. Effaith y canfyddiadau a wneir gan y person penodedig
11. Adolygu parthau perygl nitradau

7. Designation of nitrate vulnerable zones
8. Application for a declaration
9. Proceedings before the appointed person
10. Effect of findings made by the appointed person
11. Review of nitrate vulnerable zones

### RHAN 3

#### Cyfyngu ar ddodi tail organig

12. Dodi tail da byw - y terfyn o ran cyfanswm y nitrogen ar gyfer yr holl ddaliad
13. Taenu tail organig - terfynau nitrogen fesul hectar

### RHAN 4

#### Y gofynion ar gyfer cnydau

14. Cynllunio'r modd y mae gwrrtaith nitrogen yn cael ei daenu
15. Yr wybodaeth ychwanegol sydd i'w chofnodi yn ystod y flwyddyn
16. Cyfanswm y nitrogen sydd i'w daenu ar ddaliad
17. Cyfrifo faint o nitrogen sydd ar gael i'r cnwd ei amsugno o dail da byw

### RHAN 5

#### Rheoli'r broses o daenu gwrrtaith nitrogen

18. Mapiau risg
19. Pryd i daenu gwrrtaith
20. Taenu gwrrtaith a weithgynhyrchwyd wrth ymyl dwr wyneb
21. Taenu tail organig wrth ymyl dwr wyneb, tyllau turio, ffynhonnau neu bydewau
22. Rheoli'r modd y mae gwrrtaith nitrogen yn cael ei daenu
23. Corffori tail organig yn y ddaear

### RHAN 6

#### Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrrtaith nitrogen

24. Ystyr "tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd"
25. Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd
26. Esemptiadau: cnydau a heuir cyn 15 Medi
27. Esemptiadau ar gyfer daliadau organig
28. Cyfyngiadau ar ôl y cyfnod gwaharddedig

### PART 3

#### Limiting the application of organic manure

12. Application of livestock manure - total nitrogen limit for the whole holding
13. Spreading organic manure - nitrogen limits per hectare

### PART 4

#### Crop requirements

14. Planning the spreading of nitrogen fertiliser
15. Additional information to be recorded during the year
16. Total nitrogen spread on a holding
17. Calculating the amount of nitrogen available for crop uptake from livestock manure

### PART 5

#### Controlling the spreading of nitrogen fertiliser

18. Risk maps
19. When to spread fertiliser
20. Spreading manufactured fertiliser near surface water
21. Spreading organic manure near surface water, boreholes, springs or wells
22. Controlling how nitrogen fertiliser is spread
23. Incorporating organic manure into the ground

### PART 6

#### Closed periods for spreading nitrogen fertiliser

24. Meaning of "organic manure with high readily available nitrogen"
25. Closed periods for spreading organic manure with high readily available nitrogen
26. Exemptions: crops sown before 15 September
27. Exemptions for organic holdings
28. Restrictions following the closed period

- 29. Amserau pryd y gwaherddir taenu gwrrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd
- 30. Amddiffyniad

- 29. Times in which spreading manufactured nitrogen fertiliser is prohibited
- 30. Defence

RHAN 7

Storio tail organig

- 31. Storio tail organig
- 32. Safleoedd dros dro mewn caeau
- 33. Gwahanu slyri
- 34. Lle i storio

PART 7

Storage of organic manure

- 31. Storage of organic manure
- 32. Temporary field sites
- 33. Separation of slurry
- 34. Storage capacity

RHAN 8

Cyfrifiadau a chofnodion

- 35. Cofnodi maint y daliad
- 36. Cofnodion ynglŷn â storio tail yn ystod y cyfnod storio
- 37. Cofnodion blynyddol ynglŷn â storio
- 38. Cofnod o'r nitrogen a gynhyrchwyd gan anifeiliaid ar y daliad
- 39. Tail da byw y daethpwyd ag ef i'r daliad neu a anfonwyd ohono;
- 40. Samplu a dadansoddi
- 41. Cofnodion o'r cnydau a heuwyd
- 42. Cofnodion o daenu gwrrtaith nitrogen
- 43. Cofnodion dilynol
- 44. Cadw cyngor
- 45. Hyd yr amser y mae cofnodion i barhau

PART 8

Calculations and records

- 35. Recording the size of the holding
- 36. Records relating to storage of manure during the storage period
- 37. Annual records relating to storage
- 38. Record of nitrogen produced by animals on the holding
- 39. Livestock manure brought on to or sent off the holding
- 40. Sampling and analysis
- 41. Records of crops sown
- 42. Records of spreading nitrogen fertiliser
- 43. Subsequent records
- 44. Keeping of advice
- 45. Duration of records

RHAN 9

Adolygu

- 46. Monitro ac adolygu
- 47. Cyfranogiad y cyhoedd

PART 9

Review

- 46. Monitoring and review
- 47. Public participation

RHAN 10

Gorfodi

- 48. Tramgwyddau a chosbau
- 49. Gorfodi
- 50. Dirymu

PART 10

Enforcement

- 48. Offences and penalties
- 49. Enforcement
- 50. Revocations

ATODLEN 1	-	Faint o dail a nitrogen a gynhyrchir gan dda byw
ATODLEN 2	-	Cyfrifo'r nitrogen sydd mewn tail
RHAN 1	-	Tabl safonau
RHAN 2	-	Samplu a dadansoddi
ATODLEN 3	-	Y cynydau a ganiateir am y cyfnod gwaharddedig

SCHEDULE 1	-	Amount of manure and nitrogen produced by livestock
SCHEDULE 2	-	Calculating nitrogen in manure
PART 1	-	Standard table
PART 2	-	Sampling and analysis
SCHEDULE 3	-	Permitted crops for the closed period

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (2) mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â diogelu dyfroedd rhag y llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol. Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan yr adran honno, a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers are designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972 (2) in relation to matters relating to the protection of waters against pollution caused by nitrates from agricultural sources. In exercise of the powers conferred upon them by that section, and paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972, the Welsh Ministers make the following Regulations.

Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer diben y cyfeirir ato yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac y mae'n ymddangos yn hwylus i Weiniogion Cymru ddehongli cyfeiriadau at offerynnau'r Gymuned Ewropeaidd yn y Rheoliadau hyn fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for the references to European Community instruments in these Regulations to be construed as references to those instruments as amended from time to time.

## RHAN 1

### Rhagarweiniad

#### Enwi

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008.

#### Cymhwyso

2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru mewn perthynas ag unrhyw ddaliad mewn parth perygl nitradau sydd wedi'i ddynodi felly yn y Rheoliadau hyn.

## PART 1

### Introduction

#### Citation

1. The title of these Regulations is the Nitrate Pollution Prevention (Wales) Regulations 2008.

#### Application

2.—(1) These Regulations apply in relation to Wales in relation to any holding in a nitrate vulnerable zone designated as such in these Regulations.

(1) *Gweler* O.S. 2001/2555 am y dynodiad a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 28(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r dynodiad hwnnw wedi'i freinio bellach yng Ngweinidogion Cymru.

(2) 1972 p. 68.

(1) *See* S.I. 2001/2555 for the designation conferred upon the National Assembly for Wales. By virtue of section 59 of, and paragraph 28(1) of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, that designation is now vested in the Welsh Ministers.

(2) 1972 c. 68.

(2) Yn achos daliad sy'n rhannol o fewn parth perygl nitradau, dim ond yn y rhan o'r daliad sydd y tu mewn i'r parth y mae'r Rheoliadau'n gymwys, ac mae cyfeiriad at ddaliad yn gyfeiriad at y rhan honno.

### Dod i rym

3.—(1) Daw'r Rheoliadau hyn (ac eithrio rheoliad 22(1) a Rhan 7) i rym ar 1 Ionawr 2009.

(2) Daw rheoliad 22(1) a Rhan 7 i rym ar 1 Ionawr 2012.

### Mesurau trosiannol ar gyfer daliadau nad oeddent gynt mewn parth perygl nitradau.

4. Mewn daliad neu ran o ddaliad nad yw'n rhan o barth perygl nitradau o dan Reoliadau Diogelu Dŵr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 1996(1) neu Reoliadau Diogelu Dŵr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2002(2)—

- (a) ni fydd Rhannau 3 a 4, rheoliadau 19 i 21, 22(2), 23, Rhan 6 a Rhan 8 yn gymwys tan 1 Ionawr 2010, a
- (b) ni fydd y gofynion yn rheoliadau 35(1) a 36(1) i gofnodi maint y daliad a'r lle storio yn gymwys tan 30 Ebrill 2010.

### Ystyr "dŵr llygredig"

5. Mae dŵr wedi'i lygru—

- (a) os yw'n ddŵr croyw ac yn cynnwys crynodiad nitradau sy'n uwch na 50 mg/l, neu y gallai ei gynnwys pe na bai'r Rheoliadau hyn yn gymwys yno, neu
- (b) os yw'n ewtrogenig neu y gallai ddod yn ewtrogenig yn y dyfodol agos pe na bai'r Rheoliadau hyn yn gymwys yno.

### Dehongli

6.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "da byw" ("*livestock*") yw unrhyw anifail (gan gynnwys dofednod) a bennir yn Atodlen 1;

ystyr "dofednod" ("*poultry*") yw dofednod a bennir yn Atodlen 1;

ystyr "ewtrogenig" ("*eutrophic*") yw dŵr sydd wedi'i gyfoethogi gan gyfansoddion nitrogen, sy'n peri i algâu a ffurfiau uwch ar fywyd planhigol dyfu'n gyflymach, gan darfu mewn modd annymunol ar gydbwysedd yr organeddau sy'n bresennol yn y dŵr ac ar ansawdd y dŵr o dan sylw;

(2) In the case of a holding partly in a nitrate vulnerable zone, the Regulations apply only in the part of the holding inside the zone, and a reference to a holding is a reference to that part.

### Coming into force

3.—(1) These Regulations (other than regulation 22(1) and Part 7) come into force on 1 January 2009.

(2) Regulation 22(1) and Part 7 come into force on 1 January 2012.

### Transitional measures for holdings not previously in a nitrate-vulnerable zone

4. In a holding or part of a holding not part of a nitrate vulnerable zone under the Protection of Water Against Agricultural Nitrate Pollution (England and Wales) Regulations 1996(1) or the Protection of Water Against Agricultural Nitrate Pollution (Amendment) (Wales) Regulations 2002(2)—

- (a) Parts 3 and 4, regulations 19 to 21, 22(2), 23, Part 6 and Part 8 do not apply until 1 January 2010, and
- (b) the requirements in regulations 35(1) and 36(1) to record the size of the holding and storage capacity do not apply until 30 April 2010.

### Meaning of "polluted water"

5. Water is polluted if—

- (a) it is freshwater and contains a concentration of nitrates greater than 50 mg/l, or could do so if these Regulations were not to apply there, or
- (b) it is eutrophic or may in the near future become eutrophic if these Regulations were not to apply there.

### Interpretation

6.—(1) In these Regulations—

"appointed person" ("*person penodedig*") means the person appointed by the Welsh Ministers under Regulation 8(1);

"eutrophic" ("*ewtrogenig*") means water that is enriched by nitrogen compounds, causing an accelerated growth of algae and higher forms of plant life that produces an undesirable disturbance to the balance of organisms present in the water and to the quality of the water concerned;

(1) O.S. 1996/888.

(2) O. S. 2002/2297 (Cy. 226).

(1) S.I. 1996/888.

(2) S. I. 2002/2297 (W. 226).



ystyr "gwrtaiith nitrogen" ("*nitrogen fertiliser*") yw unrhyw sylwedd sy'n cynnwys un neu fwy o gyfansoddion nitrogen a ddefnyddir ar dir i wella twf y llystyfiant ac mae'n cynnwys tail organig;

ystyr "gwrtaiith a weithgynhyrchwyd" ("*manufactured fertiliser*") yw unrhyw wrtaiith nitrogen (ac eithrio tail organig) sydd wedi'i weithgynhyrchu drwy broses ddiwydiannol;

ystyr "person penodedig" ("*appointed person*") yw'r person a benodwyd gan Weinidogion Cymru o dan Reoliad 8(1);

mae "pridd tenau" ("*shallow soil*") yn bridd y mae ei ddyfnder yn llai na 40 cm;

ystyr "pridd tywodlyd" ("*sandy soil*") yw unrhyw bridd sy'n gorwedd ar dywodfaen, neu unrhyw bridd arall—

- (a) pan fo, yn yr haen hyd at ddyfnder o 40 cm—
- (i) mwy na 50 y cant yn ôl pwysau o ronynnau y mae eu diamedr o 0.06 i 2 mm,
  - (ii) llai na 18 y cant yn ôl pwysau o ronynnau y mae eu diamedr yn llai na 0.02 mm, a
  - (iii) llai na 5 y cant yn ôl pwysau o garbon organig, a
- (b) pan fo, yn yr haen o ddyfnder 40 i 80 cm—
- (i) mwy na 70 y cant yn ôl pwysau o ronynnau y mae eu diamedr o 0.06 i 2 mm;
  - (ii) llai na 15 y cant yn ôl pwysau o ronynnau y mae eu diamedr yn llai na 0.02 mm;
  - (iii) llai na 5 y cant yn ôl pwysau o garbon organig;

ystyr "slyri" ("*slurry*") yw carthion a gynhyrchir gan dda byw (ac eithrio dofednod) tra bônt mewn buarth neu adeilad (gan gynnwys unrhyw sarn, dwr glaw neu olchiadau a gymysgwyd gyda'r carthion hynny) ac y mae eu tewdra yn caniatáu iddynt gael eu pwmpio neu eu gollwng drwy ddisgyrchiant (yn achos carthion sydd wedi'u gwahanu i'w ffracsïynau hylifol a'u rhai solet, y ffracsïwn hylifol yw'r slyri);

mae "taenu" ("*spreading*") yn cynnwys doddi ar wyneb y tir, chwistrellu i mewn i'r tir neu gymysgu â haenau arwyneb y tir ond nid yw'n cynnwys dyddodi carthion yn uniongyrchol ar y tir gan anifeiliaid.

ystyr "tail organig" ("*organic manure*") yw unrhyw wrtaiith nitrogen sy'n deillio o anifeiliaid, planhigion neu fodau dynol ac mae'n cynnwys tail da byw;

ystyr "tir y mae'r risg o oferu drosto yn isel" ("*land that has a low run-off risk*") yw tir y mae ei lethr cyfartalog yn llai na 3° (3 gradd), a hwnnw'n dir nad oes ganddo draeniau tir (ac eithrio pibell anhydraidd sydd wedi'i selio), ac sydd o leiaf 50

"land that has a low run-off risk" ("*tir y mae'r risg o oferu drosto yn isel*") means land that has an average slope less than 3° (3 degrees), does not have land drains (other than a sealed impermeable pipe), and is at least 50 metres from a watercourse or conduit leading to a watercourse;

"livestock" ("*da byw*") means any animal (including poultry) specified in Schedule 1;

"manufactured fertiliser" ("*gwrtaiith a weithgynhyrchwyd*") means any nitrogen fertiliser (other than organic manure) manufactured by an industrial process;

"nitrogen fertiliser" ("*gwrtaiith nitrogen*") means any substance containing one or more nitrogen compounds used on land to enhance growth of vegetation and includes organic manure;

"poultry" ("*dofednod*") means poultry specified in Schedule 1;

"organic manure" ("*tail organig*") means any nitrogen fertiliser derived from animal, plant or human sources and includes livestock manure;

"sandy soil" ("*pridd tywodlyd*") means any soil over sandstone, and any other soil where—

- (a) in the layer up to 40 cm deep, there are—
- (i) more than 50 per cent by weight of particles from 0.06 to 2 mm in diameter,
  - (ii) less than 18 per cent by weight of particles less than 0.02 mm diameter, and
  - (iii) less than 5 per cent by weight of organic carbon, and
- (b) in the layer from 40 to 80 cm deep, there are—
- (i) more than 70 per cent by weight of particles from 0.06 to 2 mm in diameter;
  - (ii) less than 15 per cent by weight of particles less than 0.02 mm diameter;
  - (iii) less than 5 per cent by weight of organic carbon;

"shallow soil" ("*pridd tenau*") is soil that is less than 40 cm deep;

"slurry" ("*slyri*") means excreta produced by livestock (other than poultry) while in a yard or building (including any bedding, rainwater or washings mixed with it) that has a consistency that allows it to be pumped or discharged by gravity (in the case of excreta separated into its liquid and solid fractions, the slurry is the liquid fraction);

"spreading" ("*taenu*") includes application to the surface of the land, injection into the land or mixing with the surface layers of the land but does not include the direct deposit of excreta on to land by animals.



metr o gwrs dwr neu ddyfrffos sy'n arwain at gwrs dŵr.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

## RHAN 2

### Dynodi parthau perygl nitradau

#### Dynodi parthau perygl nitradau

7.—(1) Mae'r ardaloedd sydd wedi'u marcio'n barthau perygl nitradau ar y mapiau sydd wedi'u marcio â'r geiriau "Parthau Perygl Nitradau Map Mynegai 2008" ("*Nitrate Vulnerable Zones Index Map 2008*") a'u hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, wedi'u dynodi'n barthau perygl nitradau at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) Darnau o dir yw'r rhain sy'n draenio i ddyfroedd llygredig ac sy'n cyfrannu at lygru'r dyfroedd hynny.

#### Cais am ddatganiad

8.—(1) Caiff perchennog neu feddiannydd unrhyw ddaliad mewn parth perygl nitradau wneud cais i berson a benodwyd gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Rheoliadau hyn am ganfyddiad ynglŷn â'r daliad neu ran ohono i'r perwyl—

- (a) nad yw'n draenio i ddŵr y mae Gweinidogion Cymru wedi nodi ei fod yn llygredig, neu
- (b) ei fod neu ei bod yn draenio i ddŵr na ddylai Gweinidogion Cymru fod wedi nodi mai dŵr llygredig ydoedd,

ac felly ni ddylid dynodi'r tir yn barth perygl nitradau.

(2) Rhaid i gais fod wedi'i seilio naill ai ar—

- (a) data a ddarperir gan y ceisydd, neu
- (b) tystiolaeth a ddarperir gan y ceisydd a honno'n dystiolaeth bod y data a ddefnyddiwyd gan Weinidogion Cymru'n anghywir.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi ym mha fodd ac ar ba ffurf y mae'n rhaid gwneud y cais.

(4) Rhaid i gais gael ei wneud mewn ysgrifen ar 31 Mawrth 2009 neu cyn hynny, rhaid iddo gael ei wneud yn y modd ac ar y ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru a rhaid iddo gynnwys yr holl ddogfennaeth y mae'r ceisydd yn dibynnu arni.

(2) Any reference in these Regulations to a Community instrument is a reference to that instrument as amended from time to time.

## PART 2

### Designation of nitrate vulnerable zones

#### Designation of nitrate vulnerable zones

7.—(1) The areas marked as nitrate vulnerable zones on the maps marked "Nitrate Vulnerable Zones Index Map 2008" ("*Parthau Perygl Nitradau Map Mynegai 2008*") and deposited at the offices of the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ, are designated as nitrate vulnerable zones for the purposes of these Regulations.

(2) These are areas of land that drain into polluted waters and that contribute to the pollution of those waters.

#### Application for a declaration

8.—(1) The owner or occupier of any holding within a nitrate vulnerable zone may apply to a person appointed by the Welsh Ministers for the purpose of these Regulations for a finding that the holding or part of it—

- (a) does not drain into water identified by the Welsh Ministers as being polluted, or
- (b) drains into water that the Welsh Ministers should not have identified as being polluted,

and accordingly the land should not be designated as a nitrate vulnerable zone.

(2) An application must be based on either—

- (a) data provided by the applicant, or
- (b) evidence provided by the applicant that the data used by the Welsh Ministers were incorrect.

(3) The Welsh Ministers must publish the manner and form in which the application must be made.

(4) An application must be made in writing on or before 31 March 2009, must be made in such manner and form required by the Welsh Ministers and must include all the documentation that the applicant relies on.

### **Achosion cyfreithiol gerbron y person penodedig**

9.—(1) Rhaid i'r person penodedig ystyried y cais a chanfod a yw'r ceisydd wedi dangos, yn ôl pwysau tebygolrwydd, ynglŷn â'r daliad neu ran o'r daliad—

- (a) nad yw'n draenio i ddŵr y mae Gweinidogion Cymru wedi nodi ei fod yn llygredig; neu
- (b) ei fod neu ei bod yn draenio i ddŵr na ddylai Gweinidogion Cymru fod wedi nodi mai dwr llygredig ydoedd,

(2) Rhaid i'r person penodedig ddod i'w benderfyniad ar sail y ddogfennaeth a gyflwynwyd iddo onid yw'n penderfynu bod arno angen gwybodaeth ychwanegol i ffurfio barn, ac os felly, caiff ofyn i geisydd, neu i Weinidogion Cymru, ddarparu deunydd ychwanegol, ac o dan amgylchiadau eithriadol, caiff gynnal gwrandawriad llafar.

(3) Mewn gwrandawriad llafar mae gan y ceisydd a Gweinidogion Cymru hawl i ymddangos, ac fe gaiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw barti arall ymddangos.

(4) Rhaid i bob parti ddwyn ei gostau ei hun.

### **Effaith y canfyddiadau a wneir gan y person penodedig**

10.—(1) Os bydd y person penodedig yn penderfynu o blaid y ceisydd, ni fydd y daliad y mae'r cais yn gymwys iddo yn cael ei drin mwyach, at ddibenion y Rheoliadau hyn, fel un sydd mewn parth perygl nitradau.

(2) Os bydd y person penodedig yn canfod na ddylai unrhyw grynafa ddŵr fod wedi'i nodi fel un llygredig, ni fydd unrhyw ddaliad sy'n draenio i'r grynafa ddŵr honno yn cael ei drin mwyach, at ddibenion y Rheoliadau hyn, fel un sydd mewn parth perygl nitradau, ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu meddiannydd y cyfryw ddaliad ar unwaith.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob canfyddiad gan y person penodedig ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### **Adolygu parthau perygl nitradau**

11.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gadw golwg cyson ar natur ewtroffig dyfroedd wyneb croyw, dyfroedd aberol a dyfroedd arfordirol.

(2) Cyn 1 Ionawr 2013, ac o leiaf bob pedair blynedd ar ôl hynny, rhaid i Weinidogion Cymru fonitro'r crynodiad nitradau mewn dyfroedd croyw dros gyfnod o flwyddyn—

- (a) ar safleoedd samplu lle mae'r dŵr yn nodweddiadol o ddŵr wyneb, o leiaf bob mis ac yn amlach yn ystod cyfnodau llifogydd, a
- (b) ar safleoedd samplu lle mae'r dŵr yn

### **Proceedings before the appointed person**

9.—(1) The appointed person must consider the application and make a finding whether or not the applicant has demonstrated, on the balance of probabilities, that the holding or part of the holding—

- (a) does not drain into water identified by the Welsh Ministers as being polluted; or
- (b) drains into water that the Welsh Ministers should not have identified as being polluted;

(2) The appointed person must arrive at his or her decision based on documentation submitted to him or her unless he or she decides that he or she needs additional information to form a judgment, in which case he or she may request an applicant, or the Welsh Ministers, to provide additional material, and in exceptional circumstances may convene an oral hearing.

(3) At an oral hearing the applicant and the Welsh Ministers have the right to appear, and the appointed person may permit any other party to appear.

(4) All parties must bear their own costs.

### **Effect of findings made by the appointed person**

10.—(1) If the appointed person decides in favour of the applicant, the holding to which the application applies is no longer treated for the purposes of these Regulations as being in a nitrate vulnerable zone.

(2) If the appointed person finds that any body of water should not have been identified as being polluted, any holding draining into that body of water is no longer treated for the purposes of these Regulations as being in a nitrate vulnerable zone, and the Welsh Ministers must immediately notify the occupier of such a holding.

(3) The Welsh Ministers must publish all findings by the appointed person on the website of the Welsh Assembly Government.

### **Review of nitrate vulnerable zones**

11.—(1) The Welsh Ministers must keep under review the eutrophic state of fresh surface waters, estuarial and coastal waters.

(2) Before 1 January 2013, and at least every four years subsequently, the Welsh Ministers must monitor the nitrate concentration in freshwaters over a period of one year—

- (a) at sampling stations that are representative of surface water, at least monthly and more frequently during flood periods, and
- (b) at sampling stations that are representative of

nodweddiadol o ddŵr daear, bob hyn a hyn yn rheolaidd a chan gymryd i ystyriaeth ddarpariaethau Cyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC ar ansawdd dwr sydd wedi'i fwriadu i bobl ei yfed(1),

ac eithrio yn achos y safleoedd samplu hynny lle mae'r crynodiad nitradau yn yr holl samplau blaenorol a gymerwyd at y diben hwn wedi bod islaw 25 mg/l ac nad oes unrhyw ffactor newydd sy'n debyg o gynyddu faint o nitrogen sydd yn y samplau hynny wedi ymddangos, ac os dyna'r sefyllfa, dim ond bob wyth mlynedd y mae angen ailgynnal y rhaglen fonitro.

(3) Ar ddiwedd pob cyfnod o bedair neu wyth mlynedd fan bellaf rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) nodi dŵr y mae llygredd yn effeithio arno neu ddŵr y gallai effeithio arno os na chaiff y rheolyddion yn y Rheoliadau hyn eu cymhwyso yn yr ardal honno, gan ddefnyddio'r meini prawf yn Atodiad I i Gyfarwyddeb y Cyngor 91/676/EEC ynghylch diogelu dyfroedd rhag llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol(2);
- (b) nodi tir sy'n draenio i'r dyfroedd hynny, neu ddwr sydd wedi'i nodi mewn ffordd debyg yn Lloegr, ac sy'n cyfrannu at lygru'r dyfroedd hynny;
- (c) cymryd i ystyriaeth newidiadau a ffactorau nad oeddent wedi'u rhag—weld adeg y dynodiad blaenorol; ac
- (ch) os yw'n angenrheidiol, adolygu rhestr y parthau perygl nitradau sydd wedi'u dynodi neu ychwanegu ati.

### RHAN 3

Cyfyngu ar ddodi tail organig

#### **Dodi tail da byw - y terfyn o ran cyfanswm y nitrogen ar gyfer yr holl ddaliad**

**12.**—(1) Rhaid i feddiannydd daliad sicrhau, mewn unrhyw flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ionawr, na fydd cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw a ddodwyd ar y daliad, p'un ai'n uniongyrchol gan anifail neu drwy daenu, yn fwy na 170 kg wedi'i luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau.

(2) Rhaid cyfrifo faint o nitrogen a gynhyrchwyd gan dda byw yn unol ag Atodlen 1.

(3) Wrth gyfrifo arwynebedd y daliad at ddibenion canfod faint o nitrogen y caniateir ei daenu ar y daliad,

(1) OJ Rhif L330, 5.12.1998, t. 32.

(2) OJ Rhif L375, 31.12. 1991, t. 1, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad (EC) 1882/2003 (OJ Rhif L284, 31.10.2003, t. 1).

groundwater, at regular intervals and taking into account the provisions of Council Directive 98/83/EC on the quality of water intended for human consumption(1),

except for those sampling stations where the nitrate concentration in all previous samples taken for this purpose has been below 25 mg/l and no new factor likely to increase the nitrate content has appeared, in which case the monitoring programme need be repeated only every eight years.

(3) At the end of each four year or eight year period at the latest the Welsh Ministers must—

- (a) identify water that is or could be affected by pollution if the controls in these Regulations are not applied in that area, using the criteria in Annex I to Council Directive 91/676/EEC concerning the protection of waters against pollution caused by nitrates from agricultural sources(2);
- (b) identify land that drains into those waters, or water similarly identified in England, and that contributes to the pollution of those waters;
- (c) take into account changes and factors unforeseen at the time of the previous designation; and
- (d) if necessary revise or add to the designation of nitrate vulnerable zones.

### PART 3

Limiting the application of organic manure

#### **Application of livestock manure - total nitrogen limit for the whole holding**

**12.**—(1) The occupier of a holding must ensure that, in any year beginning 1 January, the total amount of nitrogen in livestock manure applied to the holding, whether directly by an animal or by spreading, does not exceed 170 kg multiplied by the area of the holding in hectares.

(2) The amount of nitrogen produced by livestock must be calculated in accordance with Schedule 1.

(3) In calculating the area of the holding for the purposes of ascertaining the amount of nitrogen

(1) OJ No. L330, 5.12.1998, p. 32.

(2) OJ No. L375, 31.12. 1991, p. 1 as amended by Regulation (EC) 1882/2003 (OJ No. L284, 31.10.2003, p. 1).

diystyrir dyfroedd wyneb, unrhyw lawr caled, adeiladau, ffyrdd neu unrhyw goetir onid yw'r coetir hwnnw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pori.

#### **Taenu tail organig - terfynau nitrogen fesul hectar**

13. Rhaid i feddiannydd daliad sicrhau, mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeng mis, na fydd cyfanswm y nitrogen mewn tail organig a daenir ar unrhyw hectar penodol ar y daliad, yn fwy na 250 kg.

permitted to be spread on the holding, no account is taken of surface waters, any hardstanding, buildings, roads or any woodland unless that woodland is used for grazing.

#### **Spreading organic manure - nitrogen limits per hectare**

13. The occupier of a holding must ensure that, in any twelve month period, the total amount of nitrogen in organic manure spread on any given hectare on the holding does not exceed 250 kg.

### **RHAN 4**

#### **Y gofynion ar gyfer cynydau**

#### **Cynllunio'r modd y mae gwrtaitn nitrogen yn cael ei daenu**

14.—(1) Rhaid i feddiannydd daliad sy'n bwriadu taenu gwrtaitn nitrogen—

- (a) cyfrifo faint o nitrogen yn y pridd sy'n debyg o fod ar gael i'w amsugno gan y cnwd yn ystod y tymor tyfu ("y cyflenwad nitrogen yn y pridd");
- (b) cyfrifo'r maint gorau posibl o nitrogen y dylid ei daenu ar y cnwd, gan gymryd i ystyriaeth faint o nitrogen sydd ar gael o'r cyflenwad nitrogen yn y pridd; ac
- (c) llunio cynllun ar gyfer taenu gwrtaitn nitrogen ar gyfer y tymor tyfu hwnnw.

(2) Yn achos unrhyw gnwd nad yw'n laswelltir parhaol, rhaid i'r meddiannydd wneud hyn cyn taenu unrhyw wrtaitn nitrogen am y tro cyntaf er mwyn ffrwythlonni cnwd sydd wedi'i blannu neu y bwriedir ei blannu.

(3) Yn achos glaswelltir parhaol, rhaid i'r meddiannydd wneud hyn bob blwyddyn gan ddechrau ar 1 Ionawr cyn taenu gwrtaitn nitrogen am y tro cyntaf.

(4) Rhaid i'r cynllun fod ar ffurf barhaol.

(5) Rhaid i'r cynllun gofnodi—

- (a) cyfeirnod neu enw'r cae perthnasol;
- (b) y rhan o'r cae a blannwyd neu y bwriedir ei phlannu; ac
- (c) y math o gnwd.

(6) Yn achos y rhan a blannwyd neu y bwriedir ei phlannu, rhaid i'r cynllun gofnodi—

- (a) y math o bridd;
- (b) y cnwd blaenorol (os glaswellt oedd y cnwd blaenorol, a oedd yn cael ei reoli drwy ei dorri neu ei bori);

### **PART 4**

#### **Crop requirements**

#### **Planning the spreading of nitrogen fertiliser**

14.—(1) An occupier of a holding who intends to spread nitrogen fertiliser must—

- (a) calculate the amount of nitrogen in the soil that is likely to be available for uptake by the crop during the growing season ("the soil nitrogen supply");
- (b) calculate the optimum amount of nitrogen that should be spread on the crop, taking into account the amount of nitrogen available from the soil nitrogen supply; and
- (c) produce a plan for the spreading of nitrogen fertiliser for that growing season.

(2) In the case of any crop other than permanent grassland, the occupier must do this before spreading any nitrogen fertiliser for the first time for the purpose of fertilising a crop planted or intended to be planted.

(3) In the case of permanent grassland the occupier must do this each year beginning 1 January before the first spreading of nitrogen fertiliser.

(4) The plan must be in permanent form.

(5) The plan must record—

- (a) the reference or name of the relevant field;
- (b) the area of the field planted or intended to be planted; and
- (c) the type of crop.

(6) For the area planted or intended to be planted the plan must record—

- (a) the soil type;
- (b) the previous crop (if the previous crop was grass, whether it was managed by cutting or grazing);

- (c) y cyflenwad nitrogen yn y pridd wedi'i gyfrifo'n unol â pharagraff (1) a'r dull a ddefnyddiwyd i gadarnhau'r ffigur hwn;
- (ch) y mis y rhagwelir y caiff y cnwd ei blannu;
- (d) y cynnyrch a ragwelir (os yw'n gnwd â'r); ac
- (dd) y maint gorau posibl o nitrogen y dylid ei daenu ar y cnwd, gan gymryd i ystyriaeth faint o nitrogen sydd ar gael o'r cyflenwad nitrogen yn y pridd.

### **Yr wybodaeth ychwanegol sydd i'w chofnodi yn ystod y flwyddyn**

**15.**—(1) Cyn taenu tail organig, rhaid i'r meddiannydd gyfrifo bob tro faint o nitrogen o'r tail hwnnw sy'n debyg o fod ar gael i'r cnwd ei amsugno yn y tymor tyfu y caiff ei daenu ynddo.

(2) Rhaid i'r meddiannydd, cyn taenu'r tail organig, gofnodi—

- (a) y rhan y taenir y tail organig arni;
- (b) faint o dail organig sydd i'w daenu;
- (c) y dyddiad arfaethedig ar gyfer taenu (y mis);
- (ch) y math o dail organig;
- (d) cyfanswm y nitrogen sydd yn y tail organig; ac
- (dd) cyfanswm y nitrogen sy'n debyg o fod ar gael o'r tail y bwriedir ei daenu i'r cnwd ei amsugno yn y tymor tyfu y caiff ei daenu.

(3) Yn achos gwrtaith a weithgynhyrchwyd, rhaid i'r meddiannydd gofnodi—

- (a) y maint y mae ei angen (hynny yw, y maint gorau posibl o nitrogen y mae ei angen ar y cnwd gan ddiwynnu faint o nitrogen a fydd ar gael i'r cnwd ei amsugno o unrhyw dail organig a daenir); a
- (b) y dyddiad arfaethedig ar gyfer taenu (y mis);

### **Cyfanswm y nitrogen sydd i'w daenu ar ddaliad**

**16.** Ni waeth beth fo'r ffigur yn y cynllun, rhaid i feddiannydd sicrhau na fydd cyfanswm—

- (a) y nitrogen o wrtaith a weithgynhyrchwyd, a
- (b) y nitrogen sydd ar gael i'r cnwd ei amsugno o dail da byw yn y tymor tyfu y caiff ei daenu ynddo,

a daenir ar y cnydau canlynol, wedi'i gyfrifo'n unol â rheoliad 17, yn fwy na'r terfynau canlynol mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeng mis (y ffigur yn yr ail golofn, wedi'i addasu'n unol â'r nodiadau i'r tabl a'i luosi â'r arwynebedd cyfan mewn hectarau o'r cnwd hwnnw a heuir ar y daliad, yw cyfanswm y nitrogen y caniateir ei daenu ar unrhyw gnwd penodol).

- (c) the soil nitrogen supply calculated in accordance with paragraph (1) and the method used to establish this figure;
- (d) the anticipated month that the crop will be planted;
- (e) the anticipated yield (if arable); and
- (f) the optimum amount of nitrogen that should be spread on the crop, taking into account the amount of nitrogen available from the soil nitrogen supply.

### **Additional information to be recorded during the year**

**15.**—(1) Before spreading organic manure, the occupier must on each occasion calculate the amount of nitrogen from that manure that is likely to be available for crop uptake in the growing season in which it is spread.

(2) The occupier must, before spreading the organic manure, record—

- (a) the area on which the organic manure will be spread;
- (b) the quantity of organic manure to be spread;
- (c) the planned date for spreading (month);
- (d) the type of organic manure;
- (e) the total nitrogen content of the organic manure; and
- (f) the amount of nitrogen likely to be available from the manure intended to be spread for crop uptake in the growing season in which it is spread.

(3) In the case of manufactured fertiliser the occupier must record—

- (a) the amount required (that is, the optimum amount of nitrogen required by the crop less the amount of nitrogen that will be available for crop uptake from any organic manure spread); and
- (b) the planned date for spreading (month).

### **Total nitrogen spread on a holding**

**16.** Irrespective of the figure in the plan, an occupier must ensure that the total amount of—

- (a) nitrogen from manufactured fertiliser, and
- (b) nitrogen available for crop uptake from livestock manure in the growing season in which it is spread,

spread on the following crops, calculated in accordance with regulation 17, does not exceed the following limits in any twelve month period (the total amount of nitrogen permitted to be spread on any given crop is the figure in the second column, adjusted in accordance with the notes to the table and multiplied by the total area in hectares of that crop sown on the holding).

## Uchafswm y Nitrogen

<i>Y cnwd</i>	<i>Faint o nitrogen a ganiateir (kg)<sup>(a)</sup></i>	<i>Cynnyrch safonol(tunnell/ha)</i>
Gwenith a heuir yn yr hydref neu'n gynnar yn y gaeaf	220 <sup>(b) (c) (ch)</sup>	8.0
Gwenith a heuir yn y gwanwyn	180 <sup>(c) (ch)</sup>	7.0
Haidd y gaeaf	180 <sup>(b) (c)</sup>	6.5
Haidd y gwanwyn	150 <sup>(c)</sup>	5.5
Rêp had olew y gaeaf	250 <sup>(d)</sup>	3.5
Betys siwgr	120	dd/g
Tatws	270	dd/g
Indrawn porthi	150	dd/g
Ffa maes	0	dd/g
Pys	0	dd/g
Glaswellt	330 <sup>(dd)</sup>	dd/g

### Nodiadau

- (a) Caniateir 80 kg ychwanegol yr hectar ar gyfer pob cnwd a heuir mewn caeau os yw slwtsh gwellt neu slwtsh papur wedi'i ddodi ar y cnwd presennol neu'r cnwd blaenorol.
- (b) Caniateir 20 kg ychwanegol yr hectar ar gaeau â phridd tenau (ac eithrio priddoedd tenau sy'n gorwedd ar dywodfaen).
- (c) Caniateir 20 kg ychwanegol yr hectar am bob tunnell y mae'r cynnyrch a ddisgwyliwyd yn uwch na'r cynnyrch safonol.
- (ch) Caniateir 40 kg ychwanegol yr hectar ar gyfer amrywogaethau gwenith melino.
- (d) Mae hyn yn cynnwys uchafswm o 30 kg yr hectar yn yr hydref (caniateir hyn fel esemptiad i'r cyfnod gwaharddedig ar gyfer gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd) ac uchafswm o 220 kg yr hectar yn y gwanwyn. Caniateir i'r maint ar gyfer y gwanwyn gael ei gynyddu hyd at 30 kg yr hectar am bob hanner tunnell y bydd y cynnyrch a ddisgwyliwyd yn fwy na'r cynnyrch safonol.
- (dd) Caniateir 40 kg ychwanegol yr hectar ar gyfer glaswellt a dorrr i leiaf deirgwaith y flwyddyn. O 1 Ionawr 2012 bydd maint y nitrogen a ganiateir yn gostwng i 300 kg yr hectar.

### Cyfrifo faint o nitrogen sydd ar gael i'r cnwd ei amsugno o dail da byw

17.—(1) At ddibenion rheoliad 16, rhaid i'r meddiannydd gadarnhau'n gyntaf gyfanswm y nitrogen yn y tail, naill drwy ddefnyddio'r tabl yn Atodlen 2 neu drwy samplu a dadansoddi'n unol â'r Atodlen honno.

(2) Pan fo cyfanswm y nitrogen yn y tail wedi'i gadarnhau, rhagdybir bod y canrannau a ganlyn yn cadarnhau faint o nitrogen yn y tail sydd ar gael i'r cnwd ei amsugno yn y tymor tyfu y caiff ei daenu ynddo.

### Y ganran sydd ar gael

<i>Y math o dail da byw</i>	<i>Faint o nitrogen sydd ar gael i'r cnwd ei amsugno yn y tymor tyfu y caiff ei daenu ynddo</i>	
	<i>Tan 1 Ionawr 2012</i>	<i>O 1 Ionawr 2012</i>
Slyri gwartheg	20%	35%
Slyri moch	25%	45%
Tail dofednod	20%	30%
Tail da byw eraill	10%	10%



## Maximum Nitrogen

<i>Crop</i>	<i>Permitted amount of nitrogen (kg)<sup>(a)</sup></i>	<i>Standard yield(tonne/ha)</i>
Autumn or early winter sown wheat	220 <sup>(b) (c) (d)</sup>	8.0
Spring-sown wheat	180 <sup>(c) (d)</sup>	7.0
Winter barley	180 <sup>(b) (c)</sup>	6.5
Spring barley	150 <sup>(c)</sup>	5.5
Winter oilseed rape	250 <sup>(c)</sup>	3.5
Sugar beet	120	n/a
Potatoes	270	n/a
Forage maize	150	n/a
Field beans	0	n/a
Peas	0	n/a
Grass	330 <sup>(f)</sup>	n/a

### Notes

- (a) An additional 80 kg per hectare is permitted to all crops grown in fields if the current or previous crop has had straw or paper sludge applied to it.
- (b) An additional 20 kg per hectare is permitted on fields with shallow soil (other than shallow soils over sandstone).
- (c) An additional 20 kg per hectare is permitted for every tonne that the expected yield exceeds the standard yield.
- (d) An additional 40 kg per hectare is permitted to milling wheat varieties.
- (e) This consists of a maximum of 30 kg per hectare in the autumn (allowed as an exemption to the closed period for manufactured nitrogen fertiliser) and a maximum of 220 kg per hectare in the spring. The spring amount may be increased by up to 30 kg per hectare for every half tonne that expected yield exceeds the standard yield.
- (f) An additional 40 kg per hectare is permitted to grass that is cut at least three times a year. From 1 January 2012 the permitted amount of nitrogen drops to 300 kg per hectare.

## Calculating the amount of nitrogen available for crop uptake from livestock manure

17.—(1) For the purposes of regulation 16, the occupier must first establish the total amount of nitrogen in the manure, either using the table in Schedule 2 or by sampling and analysis in accordance with that Schedule.

(2) Once the total amount of nitrogen in the manure has been established, the following percentages are assumed to establish the amount of nitrogen in the manure that is available for crop uptake in the growing season in which it is spread.

### Available percentage

<i>Type of livestock manure</i>	<i>Amount of nitrogen available for crop uptake in the growing season in which it is spread</i>	
	<i>Until 1 January 2012</i>	<i>From 1 January 2012</i>
Cattle slurry	20%	35%
Pig slurry	25%	45%
Poultry manure	20%	30%
Other livestock manure	10%	10%



**Mapiau risg**

**18.**—(1) Cyn 1 Ionawr 2010 rhaid i feddiannydd daliad sy'n taenu tail organig ar y daliad hwnnw lunio map o'r daliad ("map risg") yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Os bydd amgylchiadau'n newid, rhaid i'r meddiannydd ddiweddarau'r map risg o fewn tri mis i'r newid.

(3) Rhaid i'r map risg ddangos—

- (a) pob cae, gyda'i arwynebedd mewn hectarau;
- (b) yr holl ddyfroedd wyneb;
- (c) unrhyw dyllau turio, ffynhonnau neu bydewau sydd ar y daliad neu sydd o fewn 50 metr i ffin y daliad;
- (ch) y rhannau â phriddoedd tywodlyd neu denau;
- (d) tir â llethr sy'n fwy na 12°;
- (dd) tir sydd o fewn 10 metr i ddyfroedd wyneb;
- (e) tir sydd o fewn 50 metr i dwll turio, ffynnon neu bydew;
- (f) traeniau tir (ac eithrio pibell anhydraidd sydd wedi'i selio);
- (ff) safleoedd sy'n addas ar gyfer tomenni dros dro mewn caeau os bwriedir defnyddio'r dull hwn o storio tail;
- (g) tir y mae'r risg o oferu drosto yn isel (mater o ddewis yw hyn i feddiannydd nad yw'n bwriadu taenu tail ar dir y mae'r risg o oferu drosto yn isel yn ystod y cyfnod storio yn unol â rheoliad 34).

(4) Rhaid i'r meddiannydd gadw copi.

**Pryd i daenu gwrtaith**

**19.**—(1) Rhaid i feddiannydd sy'n bwriadu taenu gwrtaith nitrogen ymgymryd yn gyntaf ag arolygiad o'r caeau i ystyried y risg y byddai nitrogen yn mynd i mewn i ddŵr wyneb.

(2) Ni chaiff neb daenu gwrtaith nitrogen ar y tir hwnnw os oes risg sylweddol y byddai nitrogen yn mynd i mewn i ddŵr wyneb, gan gymryd i ystyriaeth yn benodol—

- (a) llethr y tir, yn enwedig os yw'r llethr yn fwy na 12°;
- (b) unrhyw orchudd tir;
- (c) pa mor agos yw'r tir at ddŵr wyneb;
- (ch) amodau tywydd;
- (d) y math o bridd; ac
- (dd) presenoldeb traeniau tir.

**Risk maps**

**18.**—(1) Before 1 January 2010 an occupier of a holding who spreads organic manure on that holding must produce a map of the holding ("a risk map") in accordance with this regulation.

(2) If circumstances change the occupier must update the risk map within three months of the change.

(3) The risk map must show—

- (a) each field, with its area in hectares;
- (b) all surface waters;
- (c) any boreholes, springs or wells on the holding or within 50 metres of the holding boundary;
- (d) areas with sandy or shallow soils;
- (e) land with an incline greater than 12°;
- (f) land within 10 metres of surface waters;
- (g) land within 50 metres of a borehole, spring or well;
- (h) land drains (other than a sealed impermeable pipe);
- (i) sites suitable for temporary field heaps if this method of storing manure is to be used;
- (j) land that has a low run-off risk (this is optional for an occupier who does not intend to spread manure on low run-off risk land during the storage period in accordance with regulation 34).

(4) The occupier must keep a copy.

**When to spread fertiliser**

**19.**—(1) An occupier who intends to spread nitrogen fertiliser must first undertake a field inspection to consider the risk of nitrogen getting into surface water.

(2) No person may spread nitrogen fertiliser on that land if there is a significant risk of nitrogen getting into surface water, taking into account in particular—

- (a) the slope of the land, particularly if the slope is more than 12°;
- (b) any ground cover;
- (c) the proximity to surface water
- (d) the weather conditions
- (e) the soil type; and
- (f) the presence of land drains

(3) Ni chaiff neb daenu gwrtaith nitrogen os yw'r pridd yn llawn dwr, dan ddwr neu wedi'i orchuddio ag eira, neu os yw wedi rhewi drosto am fwy na 12 awr yn ystod y 24 awr flaenorol.

#### **Taenu gwrtaith a weithgynhyrchwyd wrth ymyl dwr wyneb**

**20.** Ni chaiff neb daenu gwrtaith a weithgynhyrchwyd o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb.

#### **Taenu tail organig wrth ymyl dŵr wyneb, tyllau turio, ffynhonnau neu bydewau**

**21.—(1)** Ni chaiff neb daenu tail organig o fewn 10 metr i ddŵr wyneb.

(2) Ond caniateir i dail da byw (ac eithrio slyri a thail dofednod) gael ei daenu yno—

- (a) os caiff ei daenu ar dir sy'n cael ei reoli ar gyfer rhydyddion bridio neu fel glaswelltir lled-naturiol sy'n gyfoethog ei rywogaethau a bod y tir—
  - (i) yn dir yr hysbyswyd ei fod yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(1); neu
  - (ii) yn ddarostyngedig i ymrwymiad amaeth-amgylcheddol a wnaed o dan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1257/1999 (ynglŷn â chymorth ar gyfer datblygu gwledig o Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF)(2)) neu o dan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1698/2005 (ynglŷn â chymorth ar gyfer datblygu gwledig o Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) (3));
- (b) os caiff ei daenu rhwng 1 Mehefin a 31 Hydref yn gynhwysol;
- (c) os nad yw'n cael ei daenu'n uniongyrchol ar ddwr wyneb; ac
- (ch) os nad yw'r cyfanswm blynyddol yn fwy na 12.5 tonnall yr hectar.

(3) Ni chaiff neb daenu tail organig o fewn 50 metr i dwll turio, ffynnon neu bydew.

#### **Rheoli'r modd y mae gwrtaith nitrogen yn cael ei daenu**

**22.—(1)** Rhaid i unrhyw berson sy'n taenu slyri ddefnyddio cyfarpar taenu a chanddo lwybr taenu isel, hynny yw, o dan 4 metr o'r ddaear.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n taenu gwrtaith nitrogen wneud hynny mor gywir â phosibl.

(3) No person may spread nitrogen fertiliser if the soil is waterlogged, flooded or snow covered, or has been frozen for more than 12 hours in the previous 24 hours.

#### **Spreading manufactured fertiliser near surface water**

**20.** No person may spread manufactured fertiliser within 2 metres of surface water.

#### **Spreading organic manure near surface water, boreholes, springs or wells**

**21.—(1)** No person may spread organic manure within 10 metres of surface water.

(2) But livestock manure (other than slurry and poultry manure) may be spread there if—

- (a) it is spread on land managed for breeding wader birds or as a species-rich semi-natural grassland and the land is—
  - (i) notified as a Site of Special Scientific Interest under the Wildlife and Countryside Act 1981(1); or
  - (ii) subject to an agri-environment commitment entered into under Council Regulation (EC) No. 1257/1999 (on support for rural development from the European Agricultural Guidance and Guarantee Fund (EAGGF)(2)) or under Council Regulation (EC) No. 1698/2005 (on support for rural development by the European Agricultural Fund for Rural Development (EAFRD) (3));
- (b) it is spread between 1 June and 31 October inclusive;
- (c) it is not spread directly on to surface water; and
- (d) the total annual amount does not exceed 12.5 tonnes per hectare.

(3) No person may spread organic manure within 50 metres of a borehole, spring or well.

#### **Controlling how nitrogen fertiliser is spread**

**22.—(1)** Any person spreading slurry must use spreading equipment with a low spreading trajectory, that is, below 4 metres from the ground.

(2) Any person spreading nitrogen fertiliser must do so in as accurate a manner as possible.

(1) 1981 p. 69.

(2) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t. 80.

(3) OJ Rhif L277, 21.10.2005, t. 1.

(1) 1981 c. 69.

(2) OJ No. L160, 26.6.1999, p. 80.

(3) OJ No. L277, 21.10.2005, p. 1.

## Corffori tail organig yn y ddaear

23.—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n doddi tail organig ar wyneb pridd moel neu sofl (ac eithrio pridd sydd wedi'i hau) sicrhau ei fod wedi'i gorffori yn y pridd yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i dail dofednod gael ei gorffori cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac o fewn 24 awr fan bellaf.

(3) Rhaid i slyri a hylif slwtsh carthion sydd wedi'i dreulio (hynny yw, hylif sy'n dod o drin slwtsh carthion drwy dreulio anerobig) gael eu corffori cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac o fewn 24 awr fan bellaf, oni chawsant eu doddi mewn bandiau gwahanedig.

(4) Rhaid i unrhyw dail organig arall (ac eithrio tail organig a daenir fel gwellt ar bridd tywodlyd) gael ei gorffori yn y pridd cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac o fewn 24 awr fan bellaf, os yw'r tir o fewn 50 metr i ddwr wyneb ac yn raddol ddisgyn yn y fath fodd ag y gellid goferu i'r dwr hwnnw.

## RHAN 6

Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrtaith nitrogen

### Ystyr "tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd"

24. Yn y Rhan hon ystyr "tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd" ("*organic manure with high readily available nitrogen*") yw tail organig y mae mwy na 30 y cant o gyfanswm y nitrogen sydd ynddo ar gael i'r cnwd adeg y taenu.

### Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd

25. Ni chaiff neb daenu tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd ar dir ar y dyddiadau canlynol, a phob un ohonynt yn ddyddiad cynhwysol ("y cyfnod gwaharddedig")—

#### Y cyfnod gwaharddedig

<i>Y math o bridd</i>	<i>Glaswelltir</i>	<i>Tir tro</i>
Pridd tywodlyd neu bridd tenau	1 Medi to 31 Rhagfyr	1 Awst i 31 Rhagfyr
Pob pridd arall	15 Hydref i 15 Ionawr	1 Hydref i 15 Ionawr

## Incorporating organic manure into the ground

23.—(1) Any person who applies organic manure on to the surface of bare soil or stubble (other than soil that has been sown) must ensure that it is incorporated into the soil in accordance with this regulation.

(2) Poultry manure must be incorporated as soon as practicable, and within 24 hours at the latest.

(3) Slurry and liquid digested sewage sludge (that is, liquid from the treatment of sewage sludge by anaerobic digestion) must be incorporated as soon as practicable, and within 24 hours at the latest, unless it was applied in separated bands.

(4) Any other organic manure (other than organic manure spread as a mulch on sandy soil) must be incorporated into the soil as soon as practicable, and within 24 hours at the latest, if the land is within 50 metres of surface water and slopes in such a way that there may be run-off to that water.

## PART 6

Closed periods for spreading nitrogen fertiliser

### Meaning of "organic manure with high readily available nitrogen"

24. In this Part "organic manure with high readily available nitrogen" ("*tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd*") means organic manure in which more than 30 per cent of the total nitrogen content is available to the crop at the time of spreading.

### Closed periods for spreading organic manure with high readily available nitrogen

25. No person may spread organic manure with high readily available nitrogen on land during the following dates, all inclusive ("the closed period")—

#### The closed period

<i>Soil type</i>	<i>Grassland</i>	<i>Tillage land</i>
Sandy or shallow soil	1 September to 31 December	1 August to 31 December
All other soils	15 October to 15 January	1 October to 15 January

## Esemptiadau: cnydau a heuir cyn 15 Medi

26. Caniateir i dail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd gael ei daenu ar dir tro gyda phridd tywodlyd neu bridd tenau rhwng 1 Awst a 15 Medi yn gynhwysol ar yr amod bod y cnwd yn cael ei hau ar neu cyn 15 Medi.

## Esemptiadau ar gyfer daliadau organig

27. Caiff meddiannydd daliad sydd wedi'i gofrestru'n gynhyrchydd organig gyda chorff a gofrestrwyd gan y Pwyllgor Cynghori ar Safonau Organig(1) daenu tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd ar unrhyw adeg—

- (a) ar gnydau a restrir yn y tabl yn Atodlen 3 (cnydau a ganiateir am y cyfnod gwaharddedig), neu
- (b) ar gnydau eraill yn unol â chyngor ysgrifenedig gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau (2),

ar yr amod na fydd pob hectar y mae tail organig yn cael ei daenu arno yn cael mwy na chyfanswm o 150 kg o nitrogen rhwng dechrau'r cyfnod gwaharddedig a diwedd Chwefror.

## Cyfyngiadau ar ôl y cyfnod gwaharddedig

28. O ddiwedd y cyfnod gwaharddedig tan ddiwedd Chwefror—

- (a) 50 metr ciwbig yr hectar yw uchafswm y slyri y caniateir ei daenu ar unrhyw un adeg ac 8 tunnell yr hectar yw uchafswm y tail dofednod y caniateir ei daenu ar unrhyw un adeg; a
- (b) rhaid bod o leiaf dair wythnos rhwng pob taeniad.

## Amserau pryd y gwaherddir taenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd

29.—(1) Ni chaiff neb daenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd ar dir yn ystod y cyfnodau canlynol (mae pob dyddiad yn gynhwysol)—

- (a) yn achos glaswelltir, o 15 Medi i 15 Ionawr, neu
- (b) yn achos tir tro, o 1 Medi i 15 Ionawr.

(2) Caniateir i wrtaith gael ei daenu yn ystod y cyfnodau hyn ar y cnydau a bennir yn y Tabl yn Atodlen 3, ar yr amod nad eir dros y gyfradd uchaf yng ngholofn 2.

(1) Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Safonau Organig yn gorff cyhoeddus anweithredol ac anadrannol sy'n cymeradwyo cyrff arolygu organig.

(2) Mae'r cynllun yn cael ei weinyddu gan Basis Registration Ltd, a gellir cael rhestr o bersonau cymwysedig oddi wrth y cwmni drwy wneud cais neu ar ei wefan [www.basis-reg.com](http://www.basis-reg.com).

## Exemptions: crops sown before 15 September

26. Spreading organic manure with high readily available nitrogen on tillage land with sandy or shallow soil is permitted between 1 August and 15 September inclusive provided that the crop is sown on or before 15 September.

## Exemptions for organic holdings

27. An occupier of a holding registered as an organic producer with a body registered with the Advisory Committee on Organic Standards (1) may spread organic manure with high readily available nitrogen at any time on—

- (a) crops listed in the table in Schedule 3 (permitted crops for the closed period), or
- (b) other crops in accordance with written advice from a person who is a member of the Fertiliser Advisers Certification and Training Scheme(2),

provided that each hectare on which organic manure is spread does not receive more than 150 kg total nitrogen between the start of the closed period and the end of February.

## Restrictions following the closed period

28. From the end of the closed period until the end of February—

- (a) the maximum amount of slurry that may be spread at any one time is 50 cubic metres per hectare and the maximum amount of poultry manure that may be spread at any one time is 8 tonnes per hectare; and
- (b) there must be at least three weeks between each spreading.

## Times in which spreading manufactured nitrogen fertiliser is prohibited

29.—(1) No person may spread manufactured nitrogen fertiliser on land during the following periods (all dates inclusive)—

- (a) in the case of grassland, from 15 September to 15 January, or
- (b) in the case of tillage land, from 1 September to 15 January.

(2) Spreading fertiliser during these periods is permitted on the crops specified in the Table in Schedule 3, provided that the maximum rate in column 2 is not exceeded.

(1) The Advisory Committee on Organic Standards is a non-executive, non departmental public body that approves organic inspection bodies.

(2) The scheme is administered by Basis Registration Ltd, and a list of qualified persons is available from them on request or at their website, [www.basis-reg.com](http://www.basis-reg.com).

(3) Caniateir taenu yn ystod y cyfnodau hynny ar gnydau nad ydynt yn Atodlen 3 ar sail cyngor ysgrifenedig gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau.

### **Amddiffyniad**

**30.** Mewn unrhyw achos cyfreithiol am dorri darpariaeth yn y Rhan hon sy'n ymwneud â thail organig, mae'n amddiffyniad i'r diffynnydd brofi—

- (a) bod y torcyfraith wedi digwydd cyn 1 Ionawr 2012, a
- (b) nad oedd gan y daliad y cyfleusterau storio ar gyfer tail organig sy'n ofynnol o dan Ran 7 adeg y torcyfraith.

## **RHAN 7**

### **Storio tail organig**

#### **Storio tail organig**

**31.** Rhaid i feddiannydd daliad sy'n storio unrhyw dail organig (nad yw'n slyri), neu unrhyw sarn sydd wedi'i halogi ag unrhyw dail organig, ei storio—

- (a) mewn llestr;
- (b) mewn adeilad gorchuddiedig;
- (c) ar wyneb anhydraidd; neu
- (ch) yn achos tail solet y gellir ei bentyrru'n domen ar ei thraed ei hun ac nad yw'n draenio hylif o'r deunydd, ar safle dros dro mewn cae.

#### **Safleoedd dros dro mewn caeau**

**32.—(1)** Rhaid i safle dros dro mewn cae beidio â bod—

- (a) mewn cae sy'n agored i lifogydd neu i ddod yn llawn dŵr;
- (b) o fewn 50m i ffynnon, pydew neu dwll turio neu o fewn 10m i ddwr wyneb neu draen tir (ac eithrio pibell anhydraidd sydd wedi'i selio);
- (c) mewn unrhyw leoliad unigol am fwy na 12 mis yn olynol;
- (ch) yn yr un lle ag un cynharach a adeiladwyd o fewn y ddwy flynedd diwethaf.

(2) Rhaid i dail dofednod solet nad oes sarn wedi'i gymysgu ag ef ac sydd wedi'i storio ar safle dros dro mewn cae gael ei orchuddio â deunydd anhydraidd.

#### **Gwahanu slyri**

**33.** Rhaid i'r broses o wahanu slyri i'w ffracsiynau solet a hylifol gael ei chyflawni'n fecanyddol neu ar wyneb anhydraidd lle mae'r ffracsiwn hylifol yn draenio i mewn i gynhwysydd addas.

(3) Spreading during those periods on crops not in Schedule 3 is permitted on the basis of written advice from a person who is a member of the Fertiliser Advisers Certification and Training Scheme.

### **Defence**

**30.** In any proceedings for any breach of a provision in this Part relating to organic manure, it is a defence for the defendant to prove that—

- (a) the breach took place before 1 January 2012, and
- (b) the holding did not have the storage facilities for organic manure required by Part 7 at the time of the breach.

## **PART 7**

### **Storage of organic manure**

#### **Storage of organic manure**

**31.** An occupier of a holding who stores any organic manure (other than slurry), or any bedding contaminated with any organic manure, must store it—

- (a) in a vessel;
- (b) in a covered building;
- (c) on an impermeable surface; or
- (d) in the case of solid manure that can be stacked in a free standing heap and that does not drain liquid from the material, on a temporary field site.

#### **Temporary field sites**

**32.—(1)** A temporary field site must not be—

- (a) in a field liable to flooding or becoming waterlogged;
- (b) within 50m of a spring, well or borehole or within 10m of surface water or a land drain (other than a sealed impermeable pipe);
- (c) located in any single position for more than 12 consecutive months;
- (d) located in the same place as an earlier one constructed within the last two years.

(2) Solid poultry manure that does not have bedding mixed into it and is stored on a temporary field site must be covered with an impermeable material.

#### **Separation of slurry**

**33.** Separation of slurry into its solid and liquid fractions must either be carried out mechanically or on an impermeable surface where the liquid fraction drains into a suitable receptacle.



## Lle i storio

34.—(1) Rhaid i feddiannydd daliad sy'n cadw unrhyw un o'r anifeiliaid a bennir yn Atodlen 1 ddarparu digon o le i storio'r holl slyri a gynhyrchir ar y daliad yn ystod y cyfnod storio, a'r holl dail dofednod a gynhyrchir mewn buarth neu adeilad ar y daliad yn ystod y cyfnod storio.

(2) Rhaid cyfrifo cyfaint y tail a gynhyrchir gan yr anifeiliaid ar y daliad yn unol ag Atodlen 1.

(3) Rhaid bod gan storfa slyri le i storio, yn ychwanegol at y tail, unrhyw law, golchiadau neu hylif arall sy'n dod i mewn i'r llestr (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn ystod y cyfnod storio.

(4) Nid yw cyfleusterau storio'n angenrheidiol ar gyfer slyri na thail dofednod—

- (a) a anfonir oddi ar y daliad; neu
- (b) a daenir ar dir y mae'r risg o oferu drosto yn isel (ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud yn unol â'r cyfyngiadau ar daenu yn y Rheoliadau hyn); ond yn yr achos hwn rhaid darparu cyfleusterau storio ar gyfer tail wythnos ychwanegol fel mesur wrth gefn pe na bai'n bosibl taenu ar rai dyddiadau.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn, y "cyfnod storio" (mae pob dyddiad yn gynhwysol) yw—

- (a) y cyfnod rhwng 1 Hydref ac 1 Ebrill ar gyfer moch a dofednod;
- (b) y cyfnod rhwng 1 Hydref ac 1 Mawrth mewn unrhyw achos arall.

## RHAN 8

### Cyfrifiadau a chofnodion

#### Cofnodi maint y daliad

35.—(1) Erbyn 30 Ebrill 2009 rhaid i feddiannydd daliad gofnodi maint cyfan y daliad wedi'i gyfrifo'n unol â rheoliad 12(3).

(2) Os bydd maint y daliad yn newid, rhaid diweddarau'r cofnod hwn o fewn mis.

#### Cofnodion ynglyn â storio tail yn ystod y cyfnod storio

36.—(1) Erbyn 30 Ebrill 2009 rhaid i feddiannydd daliad sydd â da byw gyfrifo a chofnodi—

- (a) faint o dail a gynhyrchir gan y nifer disgwylidig o anifeiliaid a gedwir mewn adeilad neu ar lawr caled yn ystod y cyfnod storio y cyfeiriwyd ato yn rheoliad 34, gan ddefnyddio'r ffigurau yn Atodlen 1;

## Storage capacity

34.—(1) An occupier of a holding who keeps any of the animals specified in Schedule 1 must provide sufficient storage for all slurry produced on the holding during the storage period, and all poultry manure produced in a yard or building on the holding during the storage period.

(2) The volume of the manure produced by the animals on the holding must be calculated in accordance with Schedule 1.

(3) A slurry store must have the capacity to store, in addition to the manure, any rainfall, washings or other liquid that enters the vessel (either directly or indirectly) during the storage period.

(4) Storage facilities are not necessary for slurry or poultry manure—

- (a) sent off the holding; or
- (b) spread on land that has a low run-off risk (provided that this is done in accordance with the restrictions on spreading in these Regulations); but in this case storage facilities for an additional one week's manure must be provided as a contingency measure in the event of spreading not being possible on some dates.

(5) For the purposes of this regulation the "storage period" (all dates inclusive) is—

- (a) the period between 1 October and 1 April for pigs and poultry;
- (b) the period between 1 October and 1 March in any other case.

## PART 8

### Calculations and records

#### Recording the size of the holding

35.—(1) By 30 April 2009 the occupier of a holding must record the total size of the holding calculated in accordance with regulation 12(3).

(2) If the size of the holding changes this record must be updated within one month.

#### Records relating to storage of manure during the storage period

36.—(1) By 30 April 2009 an occupier of a holding with livestock must calculate and record—

- (a) the amount of manure that will be produced by the anticipated number of animals that will be kept in a building or on hardstanding during the storage period referred to regulation 34, using the figures in Schedule 1;

- (b) faint o le storio (cynwysyddion slyri a lloriau caled) y mae ei angen i'w gwneud yn bosibl i gydymffurfio â rheoliad 34 (lle i storio), gan gymryd i ystyriaeth—
  - (i) faint o dail y bwriedir ei allforio o'r daliad;
  - (ii) faint o dail y bwriedir ei daenu ar dir y mae'r risg o oferu drosto yn isel; a
  - (iii) yn achos llestr dal slyri, faint o hylif ac eithrio slyri sy'n debyg o fynd i mewn i'r llestr;
- (c) maint cyfredol y lle storio ar y daliad.

(2) Rhaid i feddiannydd sy'n dod ag anifeiliaid i ddaliad am y tro cyntaf gydymffurfio â pharagraff (1) o fewn mis iddo ddo â'r anifeiliaid yno.

(3) Os bydd maint y lle storio yn newid, rhaid i'r meddiannydd gofnodi'r newid o fewn wythnos.

### **Cofnodion blynyddol ynglyn â storio**

**37.**—(1) Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn rhaid i feddiannydd daliad sydd â da byw gofnodi, am y cyfnod storio blaenorol y cyfeiriwyd ato yn rheoliad 34, nifer a chategori'r anifeiliaid mewn adeilad neu ar lawr caled yn ystod y cyfnod storio.

(2) Rhaid i'r meddiannydd gofnodi hefyd y safleoedd a ddefnyddiwyd ar gyfer tomenni mewn cae a dyddiadau eu defnyddio.

### **Cofnod o'r nitrogen a gynhyrchwyd gan anifeiliaid ar y daliad**

**38.**—(1) Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn rhaid i'r meddiannydd wneud cofnod o'r canlynol—

- (a) nifer a chategori (yn unol â'r categorïau yn Atodlen 1) yr anifeiliaid ar y daliad yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol, a
- (b) nifer y diwrnodau y treuliodd pob anifail ar y daliad.

(2) Rhaid i'r meddiannydd gyfrifo wedyn faint y nitrogen sydd yn y tail a gynhyrchwyd gan yr anifeiliaid ar y daliad yn ystod y flwyddyn honno gan ddefnyddio'r Tabl yn Atodlen 1.

(3) Fel arall, yn achos moch neu ddofednod sydd wedi'u lletya'n barhaol, caiff y meddiannydd ddefnyddio—

- (a) meddalwedd a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru; neu
- (b) yn achos system cadw da byw sy'n cynhyrchu tail solet yn unig, dulliau samplu a dadansoddi yn unol â Rhan 2 o Atodlen 2.

- (b) the amount of storage capacity (slurry vessels and hardstanding) required to enable compliance with regulation 34 (storage capacity), taking into account—
  - (i) the amount of manure intended to be exported from the holding;
  - (ii) the amount of manure intended to be spread on land that has a low run-off risk; and
  - (iii) in the case of a slurry vessel the amount of liquid other than slurry likely to enter the vessel;
- (c) the current capacity for storage on the holding.

(2) An occupier who introduces animals on to a holding for the first time must comply with paragraph (1) within one month of the introduction of the animals.

(3) If the amount of storage capacity changes the occupier must record the change within one week.

### **Annual records relating to storage**

**37.**—(1) Before 30 April each year the occupier of a holding with livestock must record, for the previous storage period referred to in regulation 34 the number and category of animals in a building or on a hardstanding during the storage period.

(2) The occupier must also record the sites used for field heaps and the dates of use.

### **Record of nitrogen produced by animals on the holding**

**38.**—(1) Before 30 April every year the occupier must make a record of—

- (a) the number and category (in accordance with the categories in Schedule 1) of animals on the holding during the previous calendar year, and
- (b) the number of days that each animal spent on the holding.

(2) The occupier must then calculate the amount of nitrogen in the manure produced by the animals on the holding during that year using the Table in Schedule 1.

(3) Alternatively, in the case of permanently housed pigs or poultry, the occupier may use—

- (a) software approved by the Welsh Ministers; or
- (b) in the case of a system of keeping livestock that only produces solid manure, sampling and analysis in accordance with Part 2 of Schedule 2.



(4) Rhaid i'r meddiannydd wneud cofnod o'r cyfrifiadau a'r ffordd y daethpwyd at y ffigurau terfynol.

(5) Rhaid i feddiannydd a ddefnyddiodd feddalwedd a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru gadw allbrint o'r canlyniad.

### **Tail da byw y daethpwyd ag ef i'r daliad neu a anfonwyd ohono**

**39.**—(1) Rhaid i feddiannydd sy'n dod â thail da byw ar ddaliad gofnodi, a hynny o fewn wythnos—

- (a) math a maint y tail da byw;
- (b) y dyddiad y daethpwyd ag ef ar y daliad;
- (c) faint o nitrogen sydd ynddo, os yw'n hysbys; a
- (ch) enw a chyfeiriad y cyflenwr.

(2) Rhaid i feddiannydd sy'n anfon tail da byw o ddaliad gofnodi o fewn wythnos—

- (a) math a maint y tail da byw;
- (b) dyddiad ei anfon o'r daliad;
- (c) faint o nitrogen sydd ynddo;
- (ch) enw a chyfeiriad y derbynnydd; a
- (d) manylion cynllun wrth gefn i'w ddefnyddio pe bai cytundeb i berson dderbyn y tail da byw yn methu.

(3) Os nad yw'n hysbys faint o nitrogen sydd yn y tail da byw y daethpwyd ag ef ar y daliad, rhaid i'r meddiannydd ganfod faint sydd yn y tail hwnnw, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gyrraedd, a'i gofnodi o fewn wythnos.

(4) Rhaid canfod pob maint nitrogen mewn tail da byw drwy ddefnyddio naill ai'r ffigurau safonol yn Rhan 1 o Atodlen 2 neu drwy samplu a dadansoddi yn y modd a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen honno.

### **Samplu a dadansoddi**

**40.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n defnyddio samplu a dadansoddi i benderfynu faint o nitrogen sydd mewn tail organig gadw'r adroddiad gwreiddiol gan y labordy.

### **Cofnodion o'r cnydau a heuwyd**

**41.** Rhaid i feddiannydd sy'n bwriadu taenu gwrtaith nitrogen gofnodi o fewn wythnos i hau cnwd—

- (a) y cnwd a heuwyd; a
- (b) dyddiad ei hau.

### **Cofnodion o daenu gwrtaith nitrogen**

**42.**—(1) O fewn wythnos i daenu tail organig rhaid i'r meddiannydd gofnodi—

(4) The occupier must make a record of the calculations and how the final figures were arrived at.

(5) An occupier who used software approved by the Welsh Ministers must keep a printout of the result.

### **Livestock manure brought on to or sent off the holding**

**39.**—(1) An occupier who brings livestock manure on to a holding must, within one week record—

- (a) the type and amount of livestock manure;
- (b) the date it is brought on to the holding;
- (c) the nitrogen content, and if known;
- (d) the name and address of the supplier.

(2) An occupier who sends livestock manure off a holding must within one week record—

- (a) the type and amount of livestock manure;
- (b) the date it is sent off the holding;
- (c) the nitrogen content;
- (d) the name and address of the recipient; and
- (e) details of a contingency plan to be used in the event that an agreement for a person to accept the livestock manure fails.

(3) If the nitrogen content of the livestock manure brought on to a holding is not known, the occupier must ascertain it, as soon as is reasonably practicable after arrival, and record it within one week.

(4) All nitrogen content must be ascertained using either the standard figures in Part 1 of Schedule 2 or by sampling and analysis as set out in Part 2 of that Schedule.

### **Sampling and analysis**

**40.**—(1) Any person using sampling and analysis to determine nitrogen content in organic manure must keep the original report from the laboratory.

### **Records of crops sown**

**41.** An occupier who intends to spread nitrogen fertiliser must record within one week of sowing a crop—

- (a) the crop sown; and
- (b) the date of sowing.

### **Records of spreading nitrogen fertiliser**

**42.**—(1) Within one week of spreading organic manure the occupier must record—

- (a) y rhan y taenwyd y tail hwnnw arni;
- (b) faint o dail organig a daenwyd;
- (c) y dyddiad neu'r dyddiadau;
- (ch) y dulliau o'i daenu;
- (d) y math o dail organig;
- (dd) cyfanswm y nitrogen yn y tail hwnnw;
- (e) faint o'r nitrogen oedd ar gael i'r cnwd.

(2) O fewn wythnos i daenu gwrtaith a weithgynhyrchwyd rhaid i'r meddiannydd gofnodi—

- (a) dyddiad ei daenu; a
- (b) faint o nitrogen a daenwyd.

### Cofnodion dilynol

43.—(1) Rhaid i feddiannydd sydd wedi defnyddio gwrtaith nitrogen gofnodi'r cynnyrch a gafwyd o gnwd â'r o fewn wythnos i ganfod y cynnyrch hwnnw.

(2) Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn rhaid i feddiannydd gofnodi sut y cafodd unrhyw laswelltir ei reoli yn y flwyddyn galendr flaenorol.

### Cadw cyngor

44. Rhaid i feddiannydd gadw copi o unrhyw gyngor gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau ac y dibynnwyd arno at unrhyw ddiben o dan y Rheoliadau hyn.

### Hyd yr amser y mae cofnodion i barhau

45. Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo wneud cofnod o dan y Rheoliadau hyn ei gadw am bum mlynedd.

## RHAN 9

### Adolygu

#### Monitro ac adolygu

46.—(1) O leiaf bob pedair blynedd rhaid i Weinidogion Cymru adolygu effeithiolrwydd y cyfyngiadau mewn parthau perygl nitradau a osodwyd gan y Rheoliadau hyn fel modd i leihau neu atal llygredd dwr a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol ac, os yw'n angenrheidiol, eu diwygio.

(2) Er mwyn gwneud hyn rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu rhaglen fonitro i asesu effeithiolrwydd y cyfyngiadau yn y Rheoliadau hyn.

(3) Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried—

- (a) y data gwyddonol a thechnegol sydd ar gael,

- (a) the area on which organic manure is spread;
- (b) the quantity of organic manure spread;
- (c) the date or dates;
- (d) the methods of spreading;
- (e) the type of organic manure;
- (f) the total nitrogen content;
- (g) the amount of nitrogen that was available to the crop.

(2) Within one week of spreading manufactured fertiliser the occupier must record—

- (a) the date of spreading; and
- (b) the amount of nitrogen spread.

### Subsequent records

43.—(1) An occupier who has used nitrogen fertiliser must record the yield achieved by an arable crop within one week of ascertaining it.

(2) Before 30 April each year an occupier must record how any grassland was managed in the previous calendar year.

### Keeping of advice

44. An occupier must keep a copy of any advice from a person who is a member of the Fertiliser Advisers Certification and Training Scheme relied on for any purpose under these Regulations.

### Duration of records

45. Any person required to make a record under these Regulations must keep it for five years.

## PART 9

### Review

#### Monitoring and review

46.—(1) At least every four years the Welsh Ministers must review the effectiveness of the restrictions in nitrate vulnerable zones imposed by these Regulations as a means of reducing or preventing water pollution caused by nitrates from agricultural sources and if necessary revise them.

(2) In order to do this the Welsh Ministers must establish a monitoring programme to assess the effectiveness of the restrictions in these Regulations.

(3) When carrying out this review the Welsh Ministers must take into account—

- (a) available scientific and technical data,

gan gyfeirio'n benodol at y priod gyfraniadau nitrogen sy'n dod o ffynonellau amaethyddol a ffynonellau eraill; a

- (b) amodau amgylcheddol rhanbarthol.

### **Cyfranogiad y cyhoedd**

47.—(1) Wrth gynnal yr adolygiad hwn rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y cyhoedd yn cael cyfleoedd cynnar ac effeithiol i gyfranogi.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau digonol i'r cyhoedd gyfranogi er mwyn eu galluogi i baratoi ac i gyfranogi'n effeithiol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau—

- (a) y bydd ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch unrhyw gynigion a bod gwybodaeth berthnasol am y cynigion hynny'n cael ei rhoi ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys gwybodaeth am yr hawl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac am y corff y caniateir i sylwadau neu gwestiynau gael eu cyflwyno iddo; a
- (b) bod hawlogaeth gan y cyhoedd i roi sylwadau a mynegi barn ar adeg pan fo'r holl opsiynau ar agor a chyn bod penderfyniadau ar y cynlluniau neu'r rhaglenni yn cael eu gwneud.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru nodi'r aelodau o'r cyhoedd y mae hawlogaeth ganddynt i Weinidogion Cymru ymgynghori â hwy, gan gynnwys cyrff anllywodraethol sy'n hyrwyddo gwaith diogelu'r amgylchedd.

(5) Rhaid caniatáu amser rhesymol ar gyfer ymgynghori.

(6) Rhaid cymryd yr ymgynghori i ystyriaeth wrth ddod i benderfyniad.

(7) Ar ôl yr ymgynghori, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r cyhoedd o'r penderfyniadau a wnaed a'r rhesymau a'r ystyriaethau y seiliwyd y penderfyniadau hynny arnynt, gan gynnwys gwybodaeth am y broses o gyfranogi gan y cyhoedd.

## **RHAN 10**

### **Gorfodi**

#### **Tramgwyddau a chosbau**

48.—(1) Mae unrhyw berson sy'n torri unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn yn euog o dramgwydd ac yn agored —

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol, neu
- (b) o'i gollfarnu ar ddiad, i ddirwy.

particularly with reference to respective nitrogen contributions originating from agricultural and other sources; and

- (b) regional environmental conditions.

### **Public participation**

47.—(1) When carrying out this review the Welsh Ministers must ensure that the public is given early and effective opportunities to participate.

(2) The Welsh Ministers must make adequate arrangements for public participation to enable the public to prepare and participate effectively.

(3) the Welsh Ministers must ensure that—

- (a) the public is consulted about any proposals and that relevant information about such proposals is made available to the public, including information about the right to participate in decision-making and about the body to which comments or questions may be submitted; and
- (b) the public is entitled to express comments and opinions when all options are open before decisions on the plans and programmes are made.

(4) The Welsh Ministers must identify the members of the public entitled to be consulted, including non-governmental organisations promoting environmental protection.

(5) Reasonable time must be allowed for consultation.

(6) Consultation must be taken into account in reaching a decision.

(7) Following consultation the Welsh Ministers must inform the public about the decisions taken and the reasons and considerations upon which those decisions are based, including information about the public participation process.

## **PART 10**

### **Enforcement**

#### **Offences and penalties**

48.—(1) Any person who breaches any provision of these Regulations is guilty of an offence and liable —

- (a) on summary conviction, to a fine not exceeding the statutory maximum, or
- (b) on conviction on indictment, to a fine.

(2) Os yw corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, ac os profir bod y tramgwydd wedi'i wneud drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi'i briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson arall tebyg yn y corff corfforaethol, neu
- (b) unrhyw berson oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth o'r fath,

bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o dramgwydd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "cyfarwyddwr" ("*director*"), mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

### Gorfodi

49. Mae'r Rheoliadau hyn i'w gorfodi gan yr Asiantaeth yr Amgylchedd.

### Dirymu

50. Mae'r Rheoliadau canlynol wedi'u dirymu i'r graddau y maent yn gwmwys o ran Cymru—

- (a) Rheoliadau Diogelu Dŵr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 1996(1);
- (b) Rheoliadau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (Cymru a Lloegr) 1998(2);
- (c) Rheoliadau Diogelu Dŵr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2002(3); ac
- (ch) Rheoliadau Diogelu Dŵr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2006(4).

(2) Where a body corporate is guilty of an offence under these Regulations, and that offence is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to have been attributable to any neglect on the part of—

- (a) any director, manager, secretary or other similar person of the body corporate, or
- (b) any person who was purporting to act in any such capacity,

that person, as well as the body corporate, is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(3) For the purposes of this regulation, "director" ("*cyfarwyddwr*"), in relation to a body corporate whose affairs are managed by its members, means a member of the body corporate.

### Enforcement

49. These Regulations are enforced by the Environment Agency.

### Revocations

50. The following are revoked in so far as they apply in relation to Wales—

- (a) the Protection of Water Against Agricultural Nitrate Pollution (England and Wales) Regulations 1996(1);
- (b) the Action Programme for Nitrate Vulnerable Zones (England and Wales) Regulations 1998(2);
- (c) the Protection of Water Against Agricultural Nitrate Pollution (Amendment) (Wales) Regulations 2002(3); and
- (d) the Protection of Water Against Agricultural Nitrate Pollution (England and Wales) (Amendment) Regulations 2006(4).

*Jane Davidson*

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

Minister for Environment, Sustainability and Housing, one of the Welsh Ministers

6 Rhagfyr 2008

6 December 2008

---

(1) O. S. 1996/888.  
(2) O.S. 1998/1202.  
(3) O.S. 2002/2297 (Cy. 226).  
(4) O.S. 2006/1289.

---

(1) S. I. 1996/888.  
(2) S. I. 1998/1202.  
(3) S. I. 2002/2297 (W. 226).  
(4) S. I. 2006/1289.

## ATODLEN 1

Rheoliadau 6,12, 34, 36 a 38

Faint o dail a nitrogen a gynhyrchir gan dda byw

### **Moch**

<i>Pwysau</i>	<i>Y tail a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (litrau)</i>	<i>Y nitrogen a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)</i>
O 7 kg a llai na 13 kg:	1.3	4.1
O 13 kg a llai nag 31 kg:	2	14.2
O 31 kg a llai na 66 kg—		
sydd wedi'u porthi â bwyd sych:	3.7	24
sydd wedi'u porthi â hylifau:	7.1	24
O 66 kg ac—		
a fwriadwyd i'w cigyddu ac—		
sydd wedi'u porthi â bwyd sych:	5.1	33
sydd wedi'u porthi â hylifau:	10	33
hychod a fwriadwyd ar gyfer bridio ond nad ydynt wedi cael eu torraid cyntaf:	5.6	38
hychod (gan gynnwys toreidiau hyd at 7 kg) a borthwyd ar ddeiet wedi'i atchwanegu ag asidau amino synthetig:	10.9	44
hychod (gan gynnwys toreidiau hyd at 7 kg) a borthwyd ar ddeiet heb asidau amino synthetig:	10.9	49
baeddod bridio o 66 kg hyd at 150 kg:	5.1	33
baeddod bridio, o 150 kg:	8.7	48

### **Gwartheg**

<i>Categori</i>	<i>Y tail a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (litrau)</i>	<i>Y nitrogen a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)</i>
<b>Lloi</b> (pob categori) hyd at 3 mis:	7	23
<b>Buchod godro</b> —		
O 3 mis a llai na 13 mis:	20	95
O 13 mis tan eu llo cyntaf:	40	167

<i>Categori</i>	<i>Y tail a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (litrau)</i>	<i>Y nitrogen a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)</i>
Ar ôl ei llo cyntaf ac y mae—		
eu cynnyrch llaeth blynyddol yn fwy na 9000 o litrau:	64	315
eu cynnyrch llaeth blynyddol rhwng 6,000 a 9000 o litrau:	53	276
eu cynnyrch llaeth blynyddol yn llai na 6000 o litrau:	42	211
<b>Buchod neu fustych eidion<sup>(1)</sup> —</b>		
O 3 mis a llai na 13 mis:	20	91
O 13 mis a llai na 25 mis:	26	137
O 25 mis—		
gwartheg benyw neu fustych i'w cigyddu:	32	137
gwartheg benyw ar gyfer bridio—		
sy'n pwyso 500 kg neu lai:	32	167
sy'n pwyso'n fwy na 500 kg:	45	227
<b>Teirw</b>		
nad ydynt yn bridio, ac sy'n 3 mis a throsodd:	26	148
Bridio—		
o 3 mis a llai na 25 mis:	26	137
o 25 mis:	26	132

<sup>(1)</sup>Gwartheg gwryw wedi'u sbaddu

### **Defaid**

<i>Categori</i>	<i>Y tail a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (litrau)</i>	<i>Y nitrogen a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)</i>
O 6 mis hyd at 9 mis oed:	1.8	5.5
O 9 mis oed hyd at wyna am y tro cyntaf, hwrdda am y tro cyntaf, neu gigydda:	1.8	3.9
Ar ôl wyna neu hwrdda <sup>(2)</sup> —		
yn pwyso llai na 60 kg:	3.3	21
yn pwyso dros 60 kg:	5	33

<sup>(2)</sup> Yn achos mamog, mae'r ffigur hwn yn cynnwys un neu fwy o wyn y mae'n rhoi sugn iddynt hyd nes y bydd yr wyn yn chwe mis oed.

**Geifr, ceirw a cheffylau**

<i>Categori</i>	<i>Y tail a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (litrau)</i>	<i>Y nitrogen a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)</i>
<b>Geifr</b>	3.5	41
<b>Ceirw—</b>		
bridio:	5.0	42
arall:	3.5	33
<b>Ceffylau</b>	24	58

**Dofednod**

<i>Categori</i>	<i>Y tail a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (cilogramau)</i>	<i>Y nitrogen a gynhyrchir bob dydd gan bob anifail (gramau)</i>
<b>Ieir a ddefnyddir i gynhyrchu wyau i bobl eu bwyta—</b>		
llai na 17 wythnos:	0.04	0.64
o 17 wythnos (mewn caets):	0.12	1.13
o 17 wythnos (heb fod mewn caets):	0.12	1.5
<b>Ieir a fegir am eu cig:</b>	0.06	1.06
<b>Ieir a fegir ar gyfer bridio—</b>		
llai na 25 wythnos:	0.04	0.86
o 25 wythnos:	0.12	2.02
<b>Tyrcwn—</b>		
gwryw:	0.16	3.74
benyw:	0.12	2.83
<b>Hwyaid:</b>	0.10	2.48
<b>Estrysiaid:</b>	1.6	3.83

Sylwer: mae pob ffigur ar gyfer dofednod yn cynnwys sarn.



## SCHEDULE 1

Regulations 6, 12, 34, 36 and 38

### Amount of manure and nitrogen produced by livestock

#### **Pigs**

<i>Weight</i>	<i>Daily manure produced by each animal (litres)</i>	<i>Daily nitrogen produced by each animal (grams)</i>
From 7kg and less than 13kg:	1.3	4.1
From 13kg and less than 31kg:	2	14.2
From 31kg and less than 66kg—		
dry fed:	3.7	24
liquid fed:	7.1	24
From 66 kg and—		
intended for slaughter—		
dry fed:	5.1	33
liquid fed:	10	33
sows intended for breeding that have not yet had their first litter:	5.6	38
sows (including litters up to 7 kg) fed on a diet supplemented with synthetic amino acids:	10.9	44
sows (including litters up to 7 kg) fed on a diet without synthetic amino acids:	10.9	49
breeding boars from 66kg up to 150kg:	5.1	33
breeding boars, from 150kg:	8.7	48

#### **Cattle**

<i>Category</i>	<i>Daily manure produced by each animal (litres)</i>	<i>Daily nitrogen produced by each animal (grams)</i>
<b>Calves</b> (all categories) up to 3 months:	7	23
<b>Dairy cows</b> —		
From 3 months and less than 13 months:	20	95
From 13 months up to first calf:	40	167
After first calf and—		
annual milk yield more than 9000 litres:	64	315
annual milk yield between 6000 to 9000 litres:	53	276
annual milk yield less than 6000 litres:	42	211

<i>Category</i>	<i>Daily manure produced by each animal (litres)</i>	<i>Daily nitrogen produced by each animal (grams)</i>
<b>Beef cows or steers<sup>(1)</sup> —</b>		
From 3 months and less than 13 months:	20	91
From 13 months and less than 25 months:	26	137
From 25 months—		
females or steers for slaughter:	32	137
females for breeding—		
weighing 500 kg or less:	32	167
weighing more than 500 kg:	45	227
<b>Bulls</b>		
Non—breeding, 3 months and over:	26	148
Breeding—		
from 3 months and less than 25 months:	26	137
from 25 months:	26	132

<sup>(1)</sup> Castrated males

### Sheep

<i>Category</i>	<i>Daily manure produced by each animal (litres)</i>	<i>Daily nitrogen produced by each animal (grams)</i>
From 6 months up to 9 months old:	1.8	5.5
From 9 months old to first lambing, first tugging or slaughter:	1.8	3.9
After lambing or tugging <sup>(2)</sup> —		
weight less than 60 kg:	3.3	21
weight over 60 kg:	5	33

<sup>(2)</sup> In the case of an ewe, this figure includes one or more suckled lambs until the lambs are aged six months.

### Goats, deer and horses

<i>Category</i>	<i>Daily manure produced by each animal (litres)</i>	<i>Daily nitrogen produced by each animal (grams)</i>
<b>Goats</b>	3.5	41
<b>Deer—</b>		
breeding:	5.0	42
other:	3.5	33
<b>Horses</b>	24	58

**Poultry**

<i>Category</i>	<i>Daily manure produced by each animal (kilograms)</i>	<i>Daily nitrogen produced by each animal (grams)</i>
<b>Chickens used for production of eggs for human consumption—</b>		
less than 17 weeks:	0.04	0.64
from 17 weeks (caged):	0.12	1.13
from 17 weeks (not caged):	0.12	1.5
<b>Chickens raised for meat:</b>	0.06	1.06
<b>Chickens raised for breeding—</b>		
less than 25 weeks:	0.04	0.86
from 25 weeks:	0.12	2.02
<b>Turkeys—</b>		
male:	0.16	3.74
female:	0.12	2.83
<b>Ducks:</b>	0.10	2.48
<b>Ostriches:</b>	1.6	3.83

Note: all figures for poultry include litter

## ATODLEN 2

Rheoliadau 17, 38 a 39

Cyfrifo'r nitrogen sydd mewn tail

RHAN 1

Tabl safonau

### Cyfanswm y nitrogen mewn tail

<i>Tail ac eithrio slyri</i>	<i>Cyfanswm y nitrogen ym mhob tunnell (kg)</i>
Tail ac eithrio slyri o'r anifeiliaid a ganlyn—	
gwartheg:	6
moch:	7
defaid:	6
hwyaid:	6.5
Tail o ieir dodwy:	16
Tail o dyrcwn neu ieir brwylio:	30
<hr/>	
<i>Slyri</i>	<i>Cyfanswm y nitrogen ym mhob metr ciwbig (kg)</i>
Gwartheg godro:	3
Gwartheg eidion:	2
Moch:	4.0
Slyri gwartheg wedi'i wahanu (ffracsiwn hylifol)—	
blwch hidlo:	1.5
wal hidlo:	2.0
hidl fecanyddol:	3.0
Slyri gwartheg wedi'i wahanu (ffracsiwn solet):	4
Slyri moch wedi'i wahanu (ffracsiwn hylifol):	3.6
Slyri moch wedi'i wahanu (ffracsiwn solet):	5

## RHAN 2

### Samplu a dadansoddi

#### Slyri

- 1.—(1) Rhaid cymryd o leiaf bum sampl, a phob un ohonynt yn 2 litr.
- (2) Rhaid i'r sampl gael ei chymryd o lestr dal slyri, ac—
  - (a) os yw'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r slyri fod wedi'i gymysgu'n drylwyr cyn i'r samplau gael eu cymryd,  
a
  - (b) rhaid i bob sampl gael ei chymryd o le gwahanol.
- (3) Ond os oes falf addas wedi'i gosod ar dancer sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer taenu, caniateir i'r samplau gael eu cymryd wrth daenu, a rhaid i bob sampl gael ei chymryd bob hyn a hyn yn ystod y broses daenu.
- (4) Rhaid i'r samplau gael eu harllwys i gynhwysydd mwy ei faint, eu troi'n drylwyr a rhaid i sampl 2 litr gael ei chymryd o'r cynhwysydd hwnnw a'i harllwys i gynhwysydd glân llai.
- (5) Rhaid i'r sampl honno gael ei hanfon wedyn i gael ei dadansoddi.

#### Teiliau solet

- 2.—(1) Rhaid cymryd y samplau o domen dail.
- (2) Rhaid cymryd o leiaf deg is-sampl 1 kg yr un, a phob un ohonynt o fan gwahanol mewn tomen.
- (3) Rhaid i bob is-sampl gael ei chymryd o leiaf 0.5 metr o wyneb y domen.
- (4) Os yw samplau yn cael eu casglu i gyfrifo i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r terfyn fferm gyfan ar gyfer moch a dofednod, rhaid cymryd pedair sampl i'w dadansoddi mewn blwyddyn galendr (gan gymryd un ym mhob chwarter) o domenni tail nad ydynt yn fwy na 12 mis oed.
- (5) Rhaid dod i'r is-samplau ar hambwrdd neu ddalen sy'n lân a sych.
- (6) Rhaid i unrhyw dalpiâu gael eu torri a rhaid cymysgu'r is-samplau â'i gilydd yn drylwyr.
- (7) Rhaid i sampl nodweddiadol, sy'n pwyso o leiaf 2 kg, gael ei hanfon wedyn i gael ei dadansoddi.

## SCHEDULE 2

Regulations 17, 38 and 39

### Calculating nitrogen in manure

#### PART 1

#### Standard table

#### **Total amount of Nitrogen in manure**

<i>Manure other than slurry</i>	<i>Total Nitrogen in each tonne (kg)</i>
Manure other than slurry from—	
cattle:	6
pigs:	7
sheep:	6
ducks:	6.5
Manure from laying hens:	16
Manure from turkeys or broiler chickens:	30
<hr/>	
<i>Slurry</i>	<i>Total Nitrogen in each cubic metre (kg)</i>
Dairy cattle:	3
Beef cattle:	2
Pigs:	4.0
Separated cattle slurry (liquid fraction)—	
strainer box:	1.5
weeping wall:	2.0
mechanical separator:	3.0
Separated cattle slurry (solid fraction):	4
Separated pig slurry (liquid fraction):	3.6
Separated pig slurry (solid fraction):	5

## PART 2

### Sampling and analysis

#### Slurry

- 1.—(1) At least five samples, each of 2 litres, must be taken.
- (2) The sample must be taken from a slurry vessel, and—
  - (a) if reasonably practicable, the slurry must be thoroughly mixed before the samples are taken, and
  - (b) each sample must be taken from a different location.
- (3) But if a tanker used for spreading is fitted with a suitable valve, the samples may be taken while spreading, and each sample must be taken at intervals during the spreading.
- (4) The samples must be poured into a larger container, stirred thoroughly and a 2 litre sample must be taken from that container and poured into a smaller clean container.
- (5) That sample must then be sent for analysis.

#### Solid manures

- 2.—(1) The samples must be taken from a manure heap
- (2) At least ten sub-samples of 1kg each must be taken, each from a different location in a heap.
- (3) Each sub- sample must be taken at least 0.5 metres from the surface of the heap.
- (4) If samples are being collected to calculate compliance with the whole farm limit for pigs and poultry, four samples for analysis must be taken in a calendar year (one taken in each quarter) from manure heaps not more than 12 months old.
- (5) The sub-samples must be placed on a clean, dry tray or sheet.
- (6) Any lumps must be broken up and the sub-samples must be thoroughly mixed together.
- (7) A representative sample of at least 2kg must then be sent for analysis.



## ATODLEN 3

Rheoliadau 27 a 29

### Y cnydau a ganiateir am y cyfnod gwaharddedig

<i>Y cnwd</i>	<i>Y gyfradd uchaf o nitrogen (kg/hectar)</i>
Rêp had olew, gaeaf <sup>(1)</sup>	30
Merllys	50
Bresych <sup>(2)</sup>	100
Glaswellt <sup>(1) (3)</sup>	80
Sgaliwns wedi'u gaeafu	40
Perllys	40
Winwns	40

<sup>(1)</sup> Rhaid peidio â thaenu nitrogen ar y cnydau hyn ar ôl 31 Hydref.

<sup>(2)</sup> Caniateir i 50 kg ychwanegol o nitrogen yr hectar gael ei daenu bob pedair wythnos yn ystod y cyfnod gwaharddedig hyd at ddyddiad y cynhaeaf.

<sup>(3)</sup> Caniateir i uchafswm o 40 kg o nitrogen yr hectar gael ei daenu ar unrhyw un adeg.

## SCHEDULE 3

Regulations 27 and 29

### Permitted crops for the closed period

<i>Crop</i>	<i>Maximum nitrogen rate (kg/hectare)</i>
Oilseed rape, winter <sup>(1)</sup>	30
Asparagus	50
Brassica <sup>(2)</sup>	100
Grass <sup>(1)(3)</sup>	80
Over-wintered salad onions	40
Parsley	40
Bulb onions	40

<sup>(1)</sup> Nitrogen must not be spread on to these crops after 31 October.

<sup>(2)</sup> An additional 50 kg of nitrogen per hectare may be spread every four weeks during the closed period up to the date of harvest.

<sup>(3)</sup> A maximum of 40 kg of nitrogen per hectare may be spread at any one time.

©© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

